



**Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth
a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd**

**Adroddiad Blynyddol Terfynol
2001 - 2002**

**Adroddiad Blynyddol Terfynol
Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio,
Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd
a gyflwynir i'r
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
am y cyfnod
1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002**

Gellir atgynhyrchu detholiadau o'r ddogfen hon cyn belled ag y bo'r ffynhonnell yn cael ei chydabod ac mai dim ond yn y sefydliadau addysgol ble eu defnyddir y gwneir y copïau. Ni ddylai copïau o'r fath gael eu gwerthu, eu hurio na'u benthyg i unrhyw unigolyn, mudiad na sefydliad arall. Mae pob hawl arall yn aros gyda'r cyhoeddwr.

Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd,
2il Lawr, Tŷ Golate, 101 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DX

Gellir cysylltu â'r cyhoeddwr yn awr drwy
Proffesiynau Iechyd Cymru
2^{il} Lawr, Tŷ Golate, 101 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DX
Ffôn: 029 2026 1400 Ffacs: 029 2026 1499
e-bost: info@hpw.org.uk
Gwefan: www.hpw.org.uk

Yn gwarchod y cyhoedd drwy sicrhau ansawdd addysg ac ymarfer i nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yng Nghymru.

Wrth gyflawni hyn bydd y Bwrdd yn :

- hybu addysg ac ymarfer effeithiol drwy sicrhau safonau
- gwerthuso trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn gosod sail i gyfeiriad y dyfodol
- integreiddio gwahanol agweddau tuag at sicrhau ansawdd
- gweithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid a chydabod eu cyfraniad
- paratoi nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd, mewn cydweithrediad ag eraill, i ddiwallu anghenion gofal iechyd pobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

CYNNWYS

		Rhif Tudalen
ADRAN 1	Llythyr y Cadeirydd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	1
ADRAN 2	Adroddiad am Waith Bwrdd Cenedlaethol Cymru yn 2001/2002	2—31
	1. Cyflwyniad	2
	2. Cefndir	2
	3. Addysg Broffesiynol	3
	Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd	3
	Mynediad i'r Proffesiynau	3
	Dychwelyd i'r Proffesiynau	3
	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	4
	4. Swyddogaethau Rheoleiddio i Warchod Pobl Cymru	4
	Y Fframwaith Reoleiddio	4
	Sut oedd y Bwrdd yn Gwarchod y Cyhoedd	4
	Swyddogaethau Ychwanegol	5
	5. Cyllid	5
	6. Aelodau a Staff y Bwrdd	5
	Aelodau	5
	Staff	6
	7. Datblygiadau Pwysig ar Lefel y DG a'r Lefel Genedlaethol	6
	Y Cyd-destun	6
	Cynllunio ar gyfer Trosglwyddo	6
	Terfynu'r Bwrdd	6
	Dylanwadau arwyddocaol	7
	8. Sicrhau Ansawdd – Gwaith Craidd y Bwrdd	9
	Prif Rôl	9
	Cefnogi'r Darparwyr Cyrsiau	9
	Ffocws yr Adolygiadau Proffesiynol Blynyddol	9
	Llawlyfr WNB	9
	Canlyniadau'r Adroddiad Cymwys i Ymarfer	9
	Prosiect Cymru gyfan	10
	Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd	11
	9. Hybu Addysg Effeithiol	11
	Mynediad i Nyrsio a Bydwreigiaeth	11
	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	11
	Dyfarniadau Ymarfer Arbenigol	11
	Cymwysterau Nyrsio Ychwanegol, Cyn Cofrestru	12
	Trosglwyddo o fod yn Nyrs Restredig	12
	Cydweithio ar Sicrhau Ansawdd	12
	Adolygiadau Proffesiynol Blynyddol	12
	Cymeradwyo Cyrsiau	13
	Rhoi Cyngor	13
	Arholi ac Asesu	13
	Dychwelyd i Ymarfer	13

	Rhif Tudalen
Rhagnodi gan Nyrsys	14
Mynegai Hyfforddi Myfyrwyr	14
10. Athrawon	14
Cyrсияu a Myfyrwyr	14
Y Safonau Newydd	15
Cymeradwyo Cyrсияu	15
Niferoedd yn Ennill Cymwysterau	15
Datblygiad Parhaus Darlithwyr	15
Cyllid ar gyfer Addysg Barhaus	15
Cymrodoriaethau Hyfforddiant Ymchwil	15
Canlyniadau	16
Y Buddion	16
11. Gweithio mewn Partneriaeth	16
Cydweithio	16
Partneriaeth a Chyfraniad	17
Ymgynghori	17
Senedd	18
Cyflogwyr yn y Maes Iechyd	18
Cefnogi Datblygiad Proffesiynol	18
12. Arolygu Bydwagedd	18
Rôl Statudol	19
Rhoi Cyngor	19
Canllawiau Cymru-gyfan	19
Gweithdai	19
13. Gwasanaeth Gwybodaeth Gyrfaoedd	19
Rôl a Thueddiadau	19
Datblygiadau'r Dyfodol	19
Deunyddiau Cymraeg	20
Rheoli'r Gwasanaeth	20
Cyfryngau Gyrfaoedd	20
14. Cyfathrebu	20
Cyfarfodydd y Bwrdd	20
Adroddiad Blynyddol	21
Cylchlythyr	21
Cyhoeddiadau	21
Gwefan	21
Y Rhyngrwyd	21
15. Yr Iaith Gymraeg	22
16. Rheoli Adnoddau	22
Arian	22
Technoleg Gwybodaeth	23
Iechyd a Diogelwch	24
Adnoddau Dynol	24
17. Siatr y Dinesydd	25

CYNNWYS

		Rhif Tudalen
	18. Dangosyddion Perfformiad	25
	19. Terfynu'r Bwrdd a Throsglwyddo ei Swyddogaethau	26
	Y Bwriad	26
	Strategaeth Rheoli Newid	26
	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cysgodol a'i Ddyfodol	26
	Rôl WNB fel Cyflogwr	27
	Cefnogi Datblygiad Staff	27
	Rheoli Newid	27
	20. Edrych yn Ôl ac Ymlaen	28
	Y Dechreuad	28
	Y Sefyllfa Gyfredol	28
	Cyflawniadau	28
	Ethos	29
	Wynebu'r Dyfodol	29
	Cyfeiriadau	30
ADRAN 3	Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2002	32
ADRAN 4	<i>Atodiadau:</i>	
	Atodiad 1: Swyddogaethau Statudol Bwrdd Cenedlaethol Cymru	57
	Atodiad 2: Cyfeiriad Addysg a Hyfforddiant ers 1997	60
	Atodiad 3: 1. Gweithgareddau cysylltiedig ag Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Mynediad i Rannau 1, 3, 5, 8, 10, 11, 12, 13, 14 a 15 o'r Gofrestr	62
	2. Gweithgareddau cysylltiedig ag Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Cymwysterau Cofnodadwy, Dychwelyd i Ymarfer a'r Fframwaith	63
	Atodiad 4: Sefydliadau Addysgol Cymeradwyedig: Rhestr o Gyrsiau Cymeradwyedig	64
	Atodiad 5: Canolfannau Astudio Cymeradwyedig, 31 Mawrth 2002	71
	Atodiad 6: Aelodaeth Bwrdd Cenedlaethol Cymru a Datganiad o Ddiddordeb gan yr Aelodau	72
	Atodiad 7: Grwp Ffocws ar Fydwreigiaeth	73
	Atodiad 8: Gwasanaeth Gwybodaeth Gyrfaedd WNB	74
	Atodiad 9: Dangosyddion Perfformiad	74
	Atodiad 10: 1. Uwch Swyddogion Bwrdd Cenedlaethol Cymru	75
	2. Siart Trefniadaeth	76

Annwyl Weinidog Iechyd

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2001/2002

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol terfynol ar gyfer Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd am y flwyddyn 2001/2002. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio gwaith y Bwrdd a sut y mae wedi cyflawni ei amcanion, fel y nodwyd hwy yn y Cynllun Corfforaethol. Prif bwyslais rheoleiddio proffesiynau yw gwarchod y cyhoedd rhag y niwed a allai ddigwydd oherwydd gweithgareddau y gweithiwr proffesiynol nad yw'n cael ei reoleiddio. Mae'r Bwrdd wedi cyfrannu at y broses hon drwy sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg ac ymarfer, cyn ac ar ôl cymhwyso, i nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yng Nghymru.

Wrth weithredu camau sicrhau ansawdd safonau academiaidd ac ymarfer, mae WNB wedi datblygu perthynas adeiladol a pherthnasol gydag Ymddiriedolaethau GIG, Sefydliadau Addysg Uwch, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrrff eraill yn y DG sy'n ymwneud â gofynion proffesiynol wrth sicrhau ansawdd.

Bydd perthnasau ac arbenigedd gwerthfawr o'r fath o fudd neilltuol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth newydd wrth iddo gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau sicrhau ansawdd o 1 Ebrill 2002 ac hefyd i Broffesiynau Iechyd Cymru, y corff newydd ar gyfer Cymru. Bydd Proffesiynau Iechyd Cymru yn cael ei sefydlu i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â meddygaeth a gwyddonwyr gofal iechyd, ynghyd â nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd ac felly'n mynd i'r afael â rhai o'r sialensau a nodwyd yng nghynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Dymunaf gydnabod ymrwymiad a gwaith caled yr aelodau a'r staff a diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u cyfraniad dros y flwyddyn ddiwethaf a thrwy gydol oes y Bwrdd. Bydd cyflawniadau'r gorffennol yn rhoi sail dda ar gyfer y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir



Susan V Kent
CADEIRYDD

Mawrth 2002

Adroddiad am Waith Bwrdd Cenedlaethol Cymru yn 2001/2002

1. CYFLWYNIAD

O ddechrau ei rôl statudol ar 1 Gorffennaf 1983 hyd 31 Mawrth 2002, pan drosglwyddwyd ei gyfrifoldebau cyfreithiol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, roedd Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (WNB) yn rhan o'r drefniadaeth rheoleiddio o fewn y DG ar gyfer nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu oedd blwyddyn olaf Bwrdd Cenedlaethol Cymru er bod cynlluniau ar y gweill i drosglwyddo arbenigedd y staff i gorff newydd yng Nghymru. Y gobaith oedd y byddai'n bosib, yn y pen draw, i sefydlu Proffesiynau Iechyd Cymru fel Corff wedi'i Noddi gan y Cynulliad (CNC) yn gyfrifol i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gefnogi gweithgareddau o fewn maes addysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru.

2. CEFNDIR

Cyn i'r Bwrdd gael ei greu ni chafwyd corff rheoleiddio Cymreig ar gyfer nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Cyrff y Deyrnas Gyfunol oedd ei ragflaenwyr neu rai oedd yn ymwneud â Chymru a Lloegr. Galluogodd cread Bwrdd Cenedlaethol Cymru roi cyfeiriad Cymreig o fewn datblygiadau mewn addysg broffesiynol a rheoleiddio'r proffesiynau. Mae rhai o'r cyflawniadau yn ystod y pedair blynedd ar bymtheg y bu'n weithgar yn cynnwys:

- trosglwyddo ac integreiddio addysg broffesiynol i'r sector Addysg Uwch tra'n cadw ffocws ymarfer cadarn oddi mewn cyrsiau;
- datblygu gwasanaeth gwybodaeth gyrfaedd;
- rhaglenni datblygiad proffesiynol i ddarlithwyr ac un pwyslais ymhlith y rhain oedd datblygiad ymarfer a dysgu wedi'u seilio ar ymchwil;
- cefnogi defnydd yr iaith Gymraeg wrth gyflwyno addysg broffesiynol;
- sefydlu trosglwyddo gwybodaeth am fyfyrwyr drwy ddulliau electronig rhwng prifysgolion, y Bwrdd a Chyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol;
- datblygiad parhaus cyrsiau ar gyfer mynediad i'r proffesiynau i gyflawni safonau y DG a'r Gymuned Ewropeaidd ac i gyflwyno ymarferwyr cymwys i'r pwrpas ac i ymarfer;
- adeiladu systemau datblygiad proffesiynol parhaus a oedd yn caniatáu trosglwyddo'r sgiliau a'r wybodaeth a nodwyd fel rhai angenrheidiol i gyflwyno gofal iechyd tra'n diwallu dyheadau unigolion ac yn caniatáu cydnabyddiaeth academaidd yn ogystal â chydabyddiaeth proffesiynol.

Mae'r Bwrdd wedi adeiladu a chefnogi rhwydweithiau eang i alluogi rhannu materion a phryderon proffesiynol ac i'w symud ymlaen ac mae wedi gwneud hyn yn y modd mwyaf agored er mwyn rhoi mynediad i bob ymarferwr, ble bynnag y maent yn gweithio. Yn ystod ei holl weithgareddau mae'r Bwrdd wedi rheoli ei adnoddau o fewn y terfynau ariannol mwyaf llym er mwyn cael y gwerth gorau.

Drwy'r cyfan o'i waith mae'r Bwrdd wedi cydnabod mai pwrpas ei weithgareddau oedd gwella gofal cleifion a gwarchod y cyhoedd. Roedd y prosesau a ddefnyddiwyd yn gwneud y defnydd mwyaf posib o'r mewnbwn gan ymarferwyr yng Nghymru i'r prosesau addysg a rheoleiddio. Dros y blynyddoedd y bu'n weithgar bu'r Bwrdd yn ffodus o safon uchel ei aelodaeth. Daeth aelodau'r Bwrdd nid yn unig o arweinwyr y tri proffesiwn o fewn y gwasanaeth a'r maes addysg ond hefyd o broffesiynau eraill a'r rheiny'n cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau. Maent i gyd wedi cynnig eu harbenigedd yn hael wrth wasanaethu lles y cyhoedd.

3. ADDYSG BROFFESIYNOL

Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd

Mae nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd cofrestredig yn llunio, gyda'i gilydd, y corff proffesiynol mwyaf ym maes gofal iechyd. Fel y cyfryw, maent yn gwneud cyfraniad pwysig i gyflwyno gofal iechyd yng Nghymru. Mae poblogaeth Cymru bron yn dair miliwn gydag oddeutu hanner miliwn yn ymweld i ddibenion busnes neu hamdden. Yn ystod 2001/2002 roedd 31,500 o nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yng Nghymru a oedd yn dal cofrestriad gweithredol gyda Chyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (UKCC). Roeddynt yn gweithio o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac mewn amrywiaeth o leoliadau eraill. Roedd y mwyafrif yn cael eu cyflogi gan y GIG (24,577 neu 31.9% o'r bobl o fewn gweithlu'r GIG). Roeddynt yn gweithio'n uniongyrchol i Ymddiriedolaethau GIG (darparwyr gofal iechyd) mewn ysbytai neu leoliadau gofal sylfaenol; i Awdurdodau Iechyd (comisiynwyr) a'r Grwpiau Iechyd Lleol ac, yn anuniongyrchol, i'r GIG o fewn meddygfeydd meddygon teulu. Yn ogystal, mae nyrsys yn gweithio yn y sector gofal iechyd annibynnol fawr sydd yng Nghymru. o fewn ysbytai preifat, cartrefi nyrsio cofrestredig ac i elusennau. Ar ben hynny, mae nifer o nyrsys yn gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol un ai o fewn adrannau gwasanaethau yr awdurdodau lleol neu'r sector annibynnol, yn cynnwys gofal preswyl a darpariaeth tai cysgodol. Mae nyrsys yn darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol o fewn diwydiant a masnach ac yn cyflwyno gofal mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a'r gwasanaethau carchar. Mae nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd hefyd yn gweithio mewn rolau rheoli ac ymgynghorol o fewn y sector cyhoeddus a llywodraeth ac fel darlithwyr mewn amrywiaeth eang o leoliadau addysgol.

Mynediad i'r Proffesiynau

Yn ystod y flwyddyn Ebrill 2001 i Mawrth 2002, dangosodd mynegai myfyrwyr WNB fod mwy na 4,000 o fyfyrwyr yn cael eu paratoi ar gyfer mynediad i'r proffesiynau ac yr oedd dros 1,158 o'r rheiny yn mynd i fod yn gymwys yn ystod y flwyddyn i'w cofrestru gyda UKCC fel nyrsys, bydwagedd neu ymwelwyr iechyd. (Gweler Adran 4: Atodiadau 2 a 3.1.)

Dychwelyd i'r Proffesiynau

Eleni cafwyd cynnydd yn nifer y cyrsiau dychwelyd i ymarfer ffurfiol oedd ar gael a'r niferoedd yn eu dilyn. Mae'r rhain yn awr yn ofynnol i'r sawl y mae eu cofrestriad proffesiynol fel nyrsys neu bydwagedd wedi dod i ben. Roedd cyrsiau dychwelyd i ymarfer bob amser yn ofynnol i fydwragedd. Mae ymwelwyr iechyd yn gorfod dychwelyd i ymarfer drwy gyrsiau dychwelyd i nyrsio ac mae'r mater o'u diweddarau fel ymwelwyr iechyd yn cael ei drafod yn ystod y cwrs.

Roedd pedwar cwrs dychwelyd i ymarfer cymeradwyedig yn cynnig lleoedd i nyrsys a bydwagedd. Roedd pumed cwrs ar gyfer nyrsys yn unig. Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd 164 o

ymarferwyr gyrsiau; roeddynt yn gallu gwneud eu cofrestriad yn weithredol unwaith eto ac ar ôl hynny, roeddynt yn gymwys i ail-ymuno â'r farchnad gwaith fel ymarferwyr cofrestredig, wedi'u diweddarau. Roedd cydweithio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd, sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr gwasanaeth yn golygu bod consensws a safon gyffredin ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer ar draws Cymru.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn ogystal â'r rhai a gymhwysodd i fod yn nyrsys yr oedd 222 o nyrsys wedi trosi eu cymwysterau nyrs restredig i gymwysterau nyrsio lefel gyntaf. Roedd hyn yn rhoi lefel uwch o ddatblygiad proffesiynol iddynt a mynediad potensial at ystod ehangach o gyfrifoldebau o fewn y gweithlu. (Gweler Adran 4: Atodiad 2.) O'r sawl cwrs gradd, diploma, tystysgrif a chysiau byr a gynigiwyd i nyrsys cofrestredig, yr oedd rhai yn arwain at gofnod ffurfiol fel Cymhwyster Ymarfer Arbenigol gyda UKCC oherwydd eu bod yn cynnwys elfen o ymarfer wedi'i asesu ac yr oeddynt ar lefel gradd. Cyflawnodd 1,123 o nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd y cyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn ac yr oeddynt yn gymwys i gofnodi cymhwyster ychwanegol o fewn eu cofnod ar y gofrestr. Yr oedd grwpiau o nyrsys yn paratoi ar gyfer ail gymhwyster cofrestradwy ar raglenni bydwagedd neu ymwelwyr iechyd a rhai a oedd yn ennill cymhwyster nyrsio cofrestradwy arall. Efallai mai'r bwriad oedd hyrwyddo gwaith o fewn tîm aml-broffesiynol neu ddiwallu anghenion cymhleth carfan o gleifion neilltuol, fel y rhai a allai angen mewnbwn nyrsio oedolion a nyrsio iechyd meddwl. Eleni gwelwyd cynnydd yn nifer y llwybrau a gynigir o fewn y cyrsiau gradd, sy'n arwain at Gymwysterau Ymarfer Arbenigol, yn cynnwys Nyrsio Gofal Dwys ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, Gerontoleg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor a Gofal Brys aml-ddisgyblaethol ym Mhrifysgol Morgannwg.

4. SWYDDOGAETHAU RHEOLEIDDIO I WARCHOD POBL CYMRU

Y Fframwaith Reoleiddio

Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd yn noddi gweithgareddau Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (WNB). Fel Corff Cyhoeddus wedi'i Noddi gan y Cynulliad roedd y Bwrdd yn rhan o'r ddarpariaeth rheoleiddio yn y DG. Ei brif rôl unigryw oedd gwarchod pobl Cymru drwy sicrhau ansawdd addysg, yn cynnwys ymarfer a pharatoi clinigol, nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd a fyddai'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd. Fel Corff Noddedig roedd Bwrdd Cenedlaethol Cymru yn adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn benodol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yr oedd yn atebol i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd Bwrdd Cenedlaethol Cymru yn gorff statudol, wedi'i sefydlu y y lle cyntaf o dan Ddeddf 1979 ac, yn ddiweddarach, yn gweithio o fewn fframwaith Deddf 1997 (gweler Adran 4: Atodiad 1). Adolygwyd y drefn reoleiddio yn ffurfiol yn 1999. Daeth y ddeddfwriaeth newydd, *Deddf Iechyd 1999* a'r *Gorchymyn Nyrsio a Bydwagedd 2001*, i rym o Ebrill 2002 a thrwy hynny daeth y trefniadau i ben a therfynwyd y pum corff a oedd wedi ffurfio'r fframwaith statudol o 1983 i 2002. Roedd hyn yn golygu bod un corff ar gyfer y DG, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, wedi cymryd lle'r pedwar Bwrdd Cenedlaethol a UKCC.

Sut oedd y Bwrdd yn Gwarchod y Cyhoedd

Wrth geisio gwarchod y cyhoedd roedd Bwrdd Cenedlaethol Cymru yn cydweithio â'r corff rheoleiddio ar gyfer y DG, UKCC, a'r tri Bwrdd Cenedlaethol arall i sicrhau fod safonau'r DG yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Roedd UKCC nid yn unig yn gosod y safonau at gyfer ymarfer ac

ymddygiad ymarferwyr ond ar gyfer eu haddysg yn ogystal, o fewn cyd-destun cytundebau perthnasol y Gymuned Ewropeaidd. Roedd WNB yn sicrhau bod safonau addysg broffesiynol y DG a'r Gymuned Ewropeaidd yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth addysg i nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd ar y cyfan o fewn prifysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch priodol eraill (SAU). Fodd bynnag, ble bo hynny'n briodol, cynigiodd WNB gefnogaeth i ddarpariaeth addysg fewnol y cyflogwyr iechyd a chymeradwyodd drefniadau rhyddfrenio priodol rhwng prifysgolion a cholegau addysg bellach ble gellid cyflawni safonau, er mwyn galluogi mwy o fynediad at ddatblygiad proffesiynol mewn ardaloedd gwledig. Roedd rhaid i ddarparwyr addysg gynnig adnoddau boddhaol i ddatblygu a chynnal cyrsiau cyn iddynt gael eu cydnabod ar gyfer y pwrpas hwn gan y Bwrdd. Yn ogystal, roedd yn rhaid i bob cwrs a llwybr unigol drwy gyrsiau aml-ddisgyblaethol gael cymeradwyaeth y Bwrdd. Wedi hynny, roedd ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r holl safnau cytunedig. Cydweithiodd y Bwrdd â phob budd-ddeiliad arall i sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd yn cael eu darparu a'u cynnal a bod y rheiny'n cefnogi, hybu a chyflwyno safonau addysg o ansawdd uchel i nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn arwain at ymarfer effeithiol ac effeithlon. .

Swyddogaethau Ychwanegol

Roedd cyfrifoldebau statudol ychwanegol y Bwrdd yn cynnwys darparu:

- cyngor a chanllawiau ar arolygiaeth statudol bydwragedd;
- gwybodaeth gyrfaoedd i'r cyhoedd a'r proffesiynau;
- sicrhau darpariaeth addysg, dechreuol a pharhaus, i addysgwyr nyrsio, bydweigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd.

5. CYLLID

Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd yn ariannu gweithgareddau WNB. Cadwodd y Bwrdd reolaeth dynn ar ei arian a pharhaodd i ddangos defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau.

6. AELODAU A STAFF Y BWRDD

Aelodau

Roedd gan y Bwrdd 10 aelod yn cynnwys Miss Susan Kent, y Cadeirydd a benodwyd yn uniongyrchol. Roedd tri aelod gweithredol yn aelodau oherwydd eu rolau rheoli uwch. Cafodd y chwech aelod anweithredol arall eu penodi, oherwydd eu persbectif o un neu fwy o agweddau o waith y Bwrdd, gan Weinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. (Gweler Adran 4: Atodiad 6.) Dim ond un newid oedd i'r aelodaeth eleni. Cafodd y Cyfarwyddwr - Ansawdd a Safonau, Thomas J Moore, secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru i swydd Cyfarwyddwr Prosiect, gyda'r cyfarwyddyd i sefydlu'r corff newydd yng Nghymru. Cymerodd Jean White, Ymgynghorydd Proffesiynol, ei le dros dro yn y swydd, yn cynnwys y swyddogaeth o fod yn aelod gweithredol o'r Bwrdd. (Gweler hefyd isod o dan y paragraff am staff.)

Staff

Yn ystod 2001/2002, roedd y Bwrdd yn cyflogi 21 staff a phedwar gweithiwr ar secondiad. Roedd y drefn staffio yn cynnwys yr uwch dîm rheoli o dri aelod gweithredol y Bwrdd, tîm ymgynghorol proffesiynol o bedwar gyda'r gweddill o'r staff gweinyddol a chefnogol, yn cynnwys tri a oedd yn gweithio'n rhan amser. (Gweler Adran 4: Atodiadau 10.1 a 10.2.) Roedd y Cyfarwyddwr - Ansawdd a Safonau ar secondiad o fis Hydref ymlaen i Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu fel Cyfarwyddwr Prosiect i sefydlu'r corff newydd ar gyfer Cymru, a fyddai'n ymgymryd â'r swyddogaethau Bwrdd hynny na fyddai'n cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o 1 Ebrill 2002. Parhaodd aelodau'r staff i weithio ar y cyd ac yn hyblyg. Roedd hyn yn caniatáu i bob swyddogaeth gael ei chyflawni'n foddhaol ac i waith y Bwrdd barhau'n esmwyth drwy gydol blwyddyn ble nad oedd hi'n bosib llenwi pob swydd. Roedd oes fer y Bwrdd eisoes wedi effeithio ar allu'r Bwrdd i recriwtio yr Ymgynghorwyr Proffesiynol o'r safon uchaf a'r profiad ehangaf sydd ei angen o fewn y tîm sicrhau ansawdd. Da o beth oedd cael cefnogaeth yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Cymru, Abertawe, a gynorthwyodd gwaith y tîm yn fawr drwy barhau gyda secondiad i ymgymryd â rôl Ymgynghorydd Proffesiynol ac, yn ddiweddar, Cyfarwyddwr - Ansawdd a Safonau Dros Dro. Roedd Ysgol Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn fodlon secondio Darlithydd Nyrsio i weithredu fel Swyddog Prosiect - Addysg Broffesiynol i gefnogi'r Tîm Ymgynghorol Proffesiynol. Rhoddodd Ymddiriedolaeth GIG Caerfyrddin secondiad i Swyddog Prosiect ychwanegol - Addysg Broffesiynol am gyfnod byrrach, yn rhan amser. Ar yr ochr weinyddol, roedd tri aelod o staff allweddol yn fodlon gohirio eu hymddeoliad, a rhoddodd hynny gefnogaeth i gynnal y swyddogaethau ariannol a gwasanaethau cyfrifiadurol yn effeithlon. Ond, erbyn diwedd y flwyddyn roedd dau bennaeth adran wedi ymddeol - Y Rheolwr Gweithredol a'r Rheolwr Ariannol. Roedd aelodau o'r staff gweinyddol yn gallu pontio bylchau ac ehangu eu meysydd gwaith unigol oherwydd eu parodrwydd i weithio'n hyblyg ac ail-hyfforddi'n barhaus nes bod eu seiliau sgiliau a gwybodaeth yn cyd-fynd â'r gwaith oedd angen ei wneud.

7. DATBLYGIADAU PWYSIG AR LEFEL Y DG A'R LEFEL GENEDLAETHOL

Y Cyd-destun

Mae'r Bwrdd wedi gweithio erioed mewn byd cymhleth, sy'n esblygu, yn y gwasanaethau iechyd a'r sector addysg, fel y'i gilydd. Mae'r flwyddyn hon wedi rhagori ar y blynyddoedd blaenorol oherwydd dyma flwyddyn olaf y Byrddau Cenedlaethol a UKCC. Y bwriad oedd gadael pob gweithgaredd a phrosiect mewn trefn dda fel y gallai partneriaid a/neu'r olynnyddion eu parhau.

Cynllunio ar gyfer Trosglwyddo

Roedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cysgodol eisoes wedi dechrau gweithio gyda rhai o swyddogion UKCC. Y bwriad oedd adnabod beth oedd gofynion y ddeddfwriaeth newydd a'r trefniadau interim a oedd i'w sefydlu i sicrhau y byddai'r trosglwyddo yn ddi-dor o ran y cyflenwad o weithwyr i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a darparwyr gofal iechyd eraill yn y dyfodol.

Terfynu'r Bwrdd

Mae Cadeirydd WNB, y tîm rheoli, yr aelod sy'n cynrychioli'r Bwrdd fel Ymddiriedolwr ar gyfer cynllun pensiwn y Bwrdd a gwahanol aelodau o'r staff hefyd wedi cymryd rhan, ynghyd â

swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolwyr o'r undebau llafur, yn y trefniadau i ddod â'r Bwrdd i derfyn a throsglwyddo staff cyn sefydlu corff newydd yng Nghymru. Yn fewnol, yr uwch dîm rheoli, yn cynnwys y tri aelod gweithredol o'r Bwrdd ynghyd â'r Rheolwr Personél a Hyfforddiant a fu'n bennaf gyfrifol. Tra roedd yn rhaid i'r Bwrdd edrych yn fewnol i sicrhau bod yr olyniaeth yn cael ei rheoli'n llyfn, cymerwyd gofal i roi'r sylw priodol i'w holl briod weithgareddau arferol. Ymestynnwyd oes y Bwrdd o fis Awst i fis Mawrth 2002 ar ôl i gynlluniau gael eu llunio i reoli llwyth gwaith a dirwyn rhai gweithgareddau i ben. Yn ystod y flwyddyn hon, roedd rhan o'r gwaith yn cynnwys dadansoddi a mesur trefniadau a gweithgareddau cyfredol er mwyn rhoi cyngor i'r rhai oedd yn gyfrifol am y trefniadau newydd.

Dylanwadau Arwyddocaol

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cwblhad rhai prosiectau tymor hir a arweiniwyd gan UKCC ar gyfer diweddarau addysg cyn-gofrestru a pharatoi athrawon. Roedd hyn, yn anorfod, yn golygu blwyddyn brysur iawn mewn perthynas â gweithgareddau cymeradwyo a monitro addysg gyda chanlyniadau mentrau pwysig yn gorfod cael eu cwblhau i gyd-fynd â'r amserlenni newydd. Ar yr un pryd, roedd y Bwrdd yn cael ceisiadau i gymryd rhan mewn gwahanol fentrau gan y llywodraeth neu i wneud sylwadau arnynt, a'r rheiny fel rheol, ond nid bob amser, yn fentrau yn deillio o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd y prif ddylanwadau ar weithgareddau'r Bwrdd yn ystod 2001/2002 yn cynnwys:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn neilltuol i'r Bwrdd, roedd y penderfyniadau strategol a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r polisiâu a weithredwyd wedi hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ganolog i'r amgylchedd yr oedd y Bwrdd yn gweithredu o'i mewn.
- Y Cyngor Nyrsio Canolog a'i baratoadau i gymeryd drosodd ei rôl newydd o 1 Ebrill 2002.
- Camau gweithredol yn codi allan o argymhellion *Rheoleiddio Nyrsys, Bydwreidd ac Ymwelwyr Iechyd: Adroddiad ar Adolygiad o Ddeddf Nyrsys, Bydwreidd ac Ymwelwyr Iechyd 1997* (J M Consulting Ltd 1999).
- Ymateb y Llywodraeth i'r adolygiad (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig WHC(99)19 1999) a Gweithgor Rheoli Newid y DG, y Pwyllgor Cynigion Deddfwriaethol a'i Bwyllgor Cyfeirio cysylltiedig.
- *Deddf Iechyd 1999*, sy'n rhoi'r awdurdod sylfaenol i'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2001.
- *Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001*, Offeryn Statudol 2002 Rhif 253, sy'n rhoi'r rheoliadau ar gyfer gweithrediad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y dyfodol a sydd, felly, yn diddymu Bwrdd Cenedlaethol Cymru.
- Rhoddwyd awdurdod drafftio ymlaen llaw yn Araith y Frenhines i'r Ddeddf GIG (Cymru), er nad oedd y drafft ymgynghorol wedi dod i law eto wrth gwblhau'r adroddiad hwn. Roedd y Ddeddf hon yn trefnu creu corff newydd i sicrhau parhad swyddogaethau Bwrdd Cenedlaethol Cymru, a oedd wedi'i ddileu, hynny yw, y swyddogaethau hynny nad oeddynt wedi cael eu deddfu eisoes fel gyfrifoldeb y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

ADRAN 2

- Gwaith parhaus y Gweithgor Rheoli Newid (Cymru), a sefydlwyd i gadw gorolwg dros y cyfeiriad strategol i'r corff newydd yng Nghymru.
- Sefydlu'r Grŵp Gweithredu Prosiect (GGP), yn cynnwys swyddogion WNB a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fu'n rhedeg y prosiect o sefydlu'r corff newydd, i bob pwrpas, nes penodwyd Cyfarwyddwr Prosiect.
- Penodiad Cyfarwyddwr Prosiect i reoli sefydliad y corff newydd yng Nghymru a chefnogaeth barhaus WNB i'r gweithgaredd hwn.
- Pwyllgor Llywio WNB, yn cynnwys: o Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Cyfarwyddwr Prosiect a swyddogion perthnasol eraill o sawl Adran; holl aelodaeth Cyd-bwyllgor Trafod ac Ymgynghori'r WNB, yn cynnwys cynrychiolwyr y Rheolwyr a'r Undebau Llafur; a chadeirydd WNB. Rheolodd y fforwm hwn y broses o gau WNB a throsglwyddo staff i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'r corff newydd yng Nghymru gael ei sefydlu.
- *Datganiad strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am baratoad "Cynllun i Gymru 2001"* (CCC 2001a).
- *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG gyda'i Bartneriaid: Fframwaith Weithredol* (CCC 2001b).
- *Creu'r Potensial* (CCC 2001c) Datblygiad "*Gwireddu'r Potensial*" *Fframwaith Strategol i Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru i'r 21^{ain} Ganrif*.
- Yr ymgyrch i wella ansawdd mewn gofal iechyd a datblygiad rheolaeth clinigol.
- Datblygiad parhaus y Grwpiau Iechyd Lleol o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'u consortia cysylltiedig, a fydd yn chwarae rhan gynyddol bwysig oherwydd y bwriad i ddileu Awdurdodau Iechyd.
- Adroddiad Grŵp Ôl-Gomisiwn UKCC, *Cymwys i Ymarfer a Phwrpas*, (UKCC 2001a)
- Penodiad Rheolwr Prosiect i Gymru-gyfan i arwain y newidiadau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno y rhaglenni cyn-cofrestru mewn nyrsio a bydwreigiaeth a ail-luniwyd o ganlyniad i adroddiad Cymwys i Ymarfer UKCC.
- Safonau newydd UKCC *Safonau ar gyfer paratoi athrawon nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd* (UKCC 2000).

8. SICRHAU ANSAWDD – GWAITH CRAIDD Y BWRDD

Prif Rôl

Prif rôl Bwrdd Cenedlaethol Cymru oedd gwarchod y cyhoedd yng Nghymru drwy sicrhau bod y rhaglenni addysg yr oedd yn eu cymeradwyo a monitro yn cynhyrchu nyrsys, bydwreidd ac ymwelwyr iechyd oedd yn gymwys i ymarfer ac yn gymwys i'r pwrpas o gyflwyno safonau boddhaol o ofal iechyd. Gwnaeth y Bwrdd hyn drwy sicrhau bod cyrsiau yn cynnig cynnwys proffesiynol priodol a safonau ymarfer priodol, y naill fel y llall, i gyd-fynd â chanlyniadau

datganedig y DG a gofynion y Gymuned Ewropeaidd. Priod gyfrifoldeb y prifysgolion yw safonau academiaidd mewn addysg, ac maent yn gosod eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain. Ble bynnag y bu hynny'n bosib, bu WNB yn cydweithio mewn gweithgareddau cymeradwyo a monitro gyda threfniadau mewnol ac allanol sicrhau ansawdd y prifysgolion er mwyn cynnal safonau tra'n lleihau'r effaith a'r tarfu ar ysgolion, adrannau, darlithwyr a myfyrwyr. Yn ogystal, mynnodd y Bwrdd gael cryn fewnbwn gan arbenigwyr clinigol a chyflogwyr gofal iechyd ar bob cam o ddatblygu, cyflwyno ac asesu cyrsiau a thrwy hynny sicrhau fod y nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd oedd yn deillio o'r cyrsiau yn gymwys ar gyfer y pwrpas o gael eu cyflogi i gyflwyno gofal.

Cefnogi'r Darparwyr Cyrsiau

Parhaodd y tîm o Ymgynghorwyr Proffesiynol ynghyd â'r Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Dros Dro - Ansawdd a Safonau i gydweithio'n agos â darparwyr cyrsiau yn ystod y flwyddyn. Maent wedi bod yn aelodau gweithredol ar bwyllgorau sicrhau ansawdd mewnol a phwyllgorau prynwyr/darparwyr addysg, wedi mynychu'r rhan fwyaf o fyrddau arholi a rhai paneli ble'r oedd myfyrwyr yn cyflwyno amgylchiadau lliniarol. Rhoddasant gyngor ac arweiniad am ddatblygiad cyrsiau cyn ac ar ôl cofrestru a chefnogaeth i'r gwasanaeth gwybodaeth gyrfaoedd a gynigir gan y Bwrdd.

Ffocws yr Adolygiadau Proffesiynol Blynyddol

Roedd cylchdro eleni o adolygiadau proffesiynol blynyddol yn canolbwyntio'n bennaf ar leoliadau clinigol myfyrwyr nyrsio cyn-gofrestru a myfyrwyr bydwreigiaeth cyn-gofrestru. Roedd hyn yn golygu cymryd sampl o 95 lleoliad clinigol, yn cynnwys ystod eang o feysydd clinigol arbenigol, o leoliadau gofal byr a gofal sylfaenol ar draws Cymru. Cyflwynwyd adborth o'r ymweliadau hyn i'r Ymddiriedolaethau GIG yn ogystal â'r Sefydliadau Addysg Uwch. Defnyddiwyd y pynciau a nodwyd gan yr Ymgynghorwyr Proffesiynol yn dilyn cyfarfodydd a thrafodaethau yn sail i'r adolygiad terfynol a gynhaliwyd gyda phob Sefydliad Addysg Uwch.

Llawlyfr WNB

Diweddarwyd, cyhoeddwyd a dosbarthwyd Llawlyfr dwyieithog WNB yng nghanol Ionawr 2002 i bob darlithydd sy'n ymwneud â chyrsiau cymeradwyedig WNB. Roedd yr wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan yn ogystal.

Canlyniadau'r Adroddiad Cymwys i Ymarfer

Yn 1999, argymhellodd Adroddiad *Cymwys i Ymarfer* UKCC (Cadeirydd: Sir Leonard Peach) bod angen ail-lunio'r rhaglenni mynediad cychwynnol i nyrsio ac adolygu rhaglenni bydwreigiaeth. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgymryd ag argymhellion UKCC drwy ei Bwyllgor Strategaeth Cymwys i Ymarfer. Datblygodd y Pwyllgor Strategol, fel prosiect, fframwaith y gellid datblygu cwricwlwm o'i mewn. Bwriad y prosiect oedd cynnig dull systematig o ymdrin ag agweddau cyffredin mewn rhaglenni newydd ar sail Cymru-gyfan. Dyma'r meysydd allweddol y cytunwyd arnynt yn y prosiect Cymru-gyfan:

- Argaeledd a mynediad
- Achredu Dysgu Blaenorol (trwy brofiad)

- Elfennau ymchwil o fewn y cwricwlwm
- Strategaeth asesu
- Portffolio myfyrwyr
- Asesu ymarfer clinigol
- Paratoi mentoriaid/aseswyr
- Archwiliad o amgylcheddau dysgu clinigol
- Trefniadau gwerthuso.

Prosiect Cymru-gyfan

Roedd y Prosiect yn un cydweithredol: yn cynnwys y pump Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a chynrychiolwyr o bob Ymddiriedolaeth GIG sy'n cyflwyno gofal nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru. Yr arweinydd oedd Mrs Lorraine Moran, ar secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru o uwch swydd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal ym Mhrifysgol Morgannwg. Gan fod y Rheolwr Prosiect wedi'i lleoli yn swyddfa WNB, roedd hynny'n caniatáu cydweithio agos gyda WNB fel y rheolydd Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â chymhwyster i ymarfer a chymhwyster i'r pwrpas. Gweithiodd yr Ymgynghorwyr Proffesiynol i gefnogi'r SAU i ddatblygu'r cyrsiau nyrsio cyn-gofrestru a'r cyrsiau bydwreigiaeth cyn-gofrestru newydd o fewn y fframwaith. Unwaith yr oedd y rhaglenni wedi cael eu llunio, roedd WNB, mewn partneriaeth â'r prifysgolion, yn gyfrifol am asesu ffurf y cwrs i sicrhau ei fod yn cyflawni'r holl feini prawf angenrheidiol ac y byddai'n cyflwyno gweithwyr proffesiynol cymwys, y byddai eu safonau ymarfer yn eu caniatáu i gael mynediad i'r gofrestr broffesiynol a gynhaliwyd gan UKCC. Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd pob rhaglen newydd fel llwybr at gofrestriad gan fod pob un yn cyflawni safonau'r UKCC a'r Gymuned Ewropeaidd. Roedd canlyniadau'r adolygiadau a wnaed i raglenni yn cynnwys:

- Elfennau craidd o'r Prosiect ar gael yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg);
- Dychwelodd y radd sylfaenol ym Mhrifysgol Morgannwg at y teitl Diploma Addysg Uwch mewn Nyrsio;
- Cymerwyd lle'r graddau pedair blynedd yn Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWI) a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru gan gyrsiau gradd tair blynedd Bagloriaeth mewn Nyrsio (Anrhydedd);
- Daeth pob rhaglen cyn-gofrestru mewn bydwreigiaeth yn lefel gradd;
- Byddai cyfleoedd ar gael am Achredu Dysgu Blaenorol (drwy brofiad) o fewn y rhaglenni nyrsio.

Y myfyrwyr cyntaf i ddechrau'r rhaglen newydd fyddai'r rhai oedd yn dechrau ym mis Chwefror 2002 yn NEWI gyda phob carfan Gwanwyn a Hydref arall ym mhob SAU yn dilyn y rhaglenni newydd.

Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd

Mae UKCC wedi bod yn cynnal ymarfer ymgynghori i ystyried y safonau a'r medrau adolygedig ar gyfer mynediad i Ran 11 o'r Gofrestr (Ymwelwyr Iechyd Cofrestredig). Cynhaliodd y Bwrdd weithgor o ymwelwyr iechyd ac addysgwyr ymwelwyr iechyd i ystyried y ddogfen ymgynghorol. Cyflwynwyd argymhellion y gweithgor i'r bwrdd yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2001. Cynrychiolwyd WNB gan y Cyfarwyddwr - Ansawdd a Safonau dros Dro yng nghyfarfod mis Chwefror, a fu'n ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ac yn penderfynu'r cyngor am safonau a medrau. Disgwylid i'r safonau a'r medrau newydd gael eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2002.

9. HYBU ADDYSG EFFEITHIOL

Mynediad i Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rhodddwyd adroddiad am ail-lunio'r cyrsiau nyrsio cyn-gofrestru eisoes o dan y sylwadau am y Prosiect Cymwys i Ymarfer (tudalennau 9 a 10). Mae'r newid cydbwysedd yn y rhaglenni a achoswyd drwy leihau'r Rhaglen Sylfaen Gyffredin i un flwyddyn o 18 mis a chynyddu'r Rhaglen Gangen i ddwy flynedd o 18 mis, un o argymhellion canolog adroddiad *Cymwys i Ymarfer* (UKCC 1999), wedi cael ei weithredu ar gyfer y rhai sy'n dechrau ar gyrsiau o Chwefror 2002 ymlaen. Mae Sefydliadau Addysgol yn parhau i gymryd nifer uwch o fyfyrwyr nyrsio ar raglenni gradd, ac felly'n gostwng niferoedd y myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r diploma: y nod yn y pen draw yw bod pob myfyriwr yn dilyn cwrs gradd. Mae pob cwrs cyn-gofrestru mewn bydwreigiaeth yn awr ar lefel gradd. Bydd hyn yn golygu bod nyrsys ar Ran 1 neu Ran 12 o'r Gofrestr sydd eisiau mynediad i'r rhaglen fydweigiaeth fer yn gorfod cael minimwm o 120 pwynt credyd ar lefel diploma i gael mynediad i'r cwrs gradd. Nid yw hyn yn fater o bryder i'r rhai sydd newydd gymhwyso ond gall olygu bod y rhai a gymhwysodd ar gyrsiau lefel tystysgrif yn mynd i orfod cwblhau addysg ôl-gofrestru ychwanegol cyn bod yn gymwys i gael mynediad i raglen bydwreigiaeth.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Bwrdd Cenedlaethol Cymru a Phrifysgol Cymru neu Brifysgol Morgannwg yn cyd-gymeradwyo/dilysu pob cwrs WNB a gynigir i nyrsys cymwysedig, sy'n arwain at gymhwyster cofrestradwy neu gofnodadwy.

Dyfarniadau Ymarfer Arbenigol

Bu cryn ehangu ar y nifer o lwybrau Dyfarniadau Ymarfer Arbenigol (DYA) a gynigir ar draws Cymru, yn arwain at lawer mwy o ddewis i nyrsys mewn nifer mwy o ddisgyblaethau. Mae esiamplau o lwybrau a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cynnwys: Gofal Lliniarol ym mhrifysgol Cymru, Abertawe; Gofal Brys ym Mhrifysgol Morgannwg a Nyrsio Llawfeddygol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Mae Dyfarniadau Ymarfer Arbenigol ar lefel gradd gydag ymarfer a theori yn cael lle cyfartal. Rhaid i bob rhaglen ddangos bod canlyniadau UKCC ar gyfer ymarfer arbenigol yn cael eu cyflawni. Yna, maent yn gofnodadwy ar gofrestr UKCC fel Cymwysterau Ymarfer Arbenigol (CYA). Roedd llwybrau modiwlwr yn parhau i fod ar gael o fewn y fframweithiau

DYA ar gyfer ennill Tystysgrifau a Diplomâu wedi'u dyfarnu ar y cyd. Roedd hyn yn caniatáu i ymarferwyr a gymhwysodd cyn bod Tystysgrifau a Diplomâu mewn Ymarfer Proffesiynol ar gael i gael mynediad i lwybr yn arwain at DYA. Roedd y dewis hwn ar gael yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru, Bangor a Phrifysgol Morgannwg, a oedd gan hefyd ryddfreniau cymeradwyedig gyda Choleg Penfro a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr. Yn achos Prifysgol Cymru, Abertawe dim ond modiwlau lefel diploma oedd ar gael o fewn y Diploma mewn Gofal Iechyd, sy'n ran o fenter Map Dysgu'r Ysgol.

Cymwysterau Nyrsio Ychwanegol, Cyn-gofrestru

I'r nyrsys hynny sydd eisiau cymhwyso mewn ail gangen ar lefel cyn-gofrestru, cafwyd mwy o gyfleoedd yn ystod y flwyddyn. Cymeradwywyd rhaglenni byr Cangen Plant ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe a Phrifysgol Cymru, Bangor. Cymeradwywyd rhaglen benodol ychwanegol i bontio nyrsys lefel gyntaf presennol i Rannau 12, 13, 14 a 15 o'r Gofrestr yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn. Gostyngwyd y rhaglen hon i un flwyddyn academiaidd gan fod rhaid i fyfyrwyr ddiwallu meini prawf mynediad sy'n cynnwys o leiaf tair blynedd o brofiad yn yr ail faes arbenigol a rhaid iddynt ddangos eu bod wedi cyflawni o leiaf 20% o'r medrau.

Cyrsiau Trosglwyddo o fod yn Nyrs Restredig

Daeth rhaglenni trosglwyddo o fod yn nyrsys rhestredig mewn tri SAU yn ddyfarniadau prifysgol, wedi'u cyd-gymeradwyo/dilysu gyda WNB. Pwrpas y broses ar y cyd oedd diogelu'r dyfarniadau tu hwnt i oes WNB (oedd yn dod i ben 31 Mawrth 2002) ac i fodloni'r awydd i nyrsys Gronni credydau academiaidd, y gellir eu defnyddio'n ddiweddarach ar gyfer dyfarniadau academiaidd pellach.

Cydweithio ar Sicrhau Ansawdd

Parhaodd tîm Ymgynghorwyr Proffesiynol WNB i drefnu Adolygiadau Proffesiynol Blynyddol fel bod adolygiad WNB o bob darparwr addysg cymeradwyedig yn cyd-fynd â phrosesau adolygu mewnol y Sefydliad Addysg Uwch. Yr ysgolion oedd yn elwa'n bennaf o symleiddio'r cylchdro, gan mai dim ond un adolygiad blynyddol yr oeddynt yn ei gael wedyn, a hwnnw wedi'i lunio i ddiwallu anghenion y ddwy broses reoleiddio. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod prosesau adolygu WNB yn cael eu cysylltu â rhai'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch pryd a pha le bynnag y mae'r rheiny'n digwydd.

Adolygiadau Proffesiynol Blynyddol

Cwblhawyd Adolygiadau Proffesiynol Blynyddol (APB) mewn pump SAU sy'n cynnig mynediad i'r proffesiynau a phedwar sy'n cynnig cyrsiau hyfforddi athrawon cymeradwyedig gan WNB. Roedd pwyslais y cylchdro adolygu yn 2001/2002 ar y lleoliadau clinigol a ddefnyddiwyd ar gyfer myfyrwyr nyrsio cyn-gofrestru a myfyrwyr bydweigiaeth cyn-gofrestru. Ymgwymerodd yr Ymgynghorwyr Proffesiynol Allweddol ar gyfer pob SAU ag ymweliadau â chroestoriad o leoliadau clinigol i gyfarfod staff, myfyrwyr, athrawon cyswllt a rheolwyr gwasanaethau. Lluniodd yr adroddiadau hyn am y lleoliadau clinigol sail y drafodaeth yn yr ymweliad APB rhwng yr Ymgynghorydd Allweddol a'r Cyfarwyddwr-Ansawdd a Hyfforddiant Dros Dro a'r staff addysgol uwch o'r ysgol.

Cymeradwyo Cyrsiau

Cafodd pob cwrs neu fodiwl, a oedd yn arwain at gymhwyster ar y cyd neu a oedd yn ran o'r llwybr tuag at gymhwyster, eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd. Roedd lefel y gymeradwyaeth yn amrywio o ofyn am gyflwyniad ffurfiol i gyfarfod o Fwrdd Cenedlaethol Cymru i'r rhai ble yr oedd cymeradwyaeth wedi ei ddirprwyo i Ymgynghorwyr Proffesiynol WNB, gyda hysbysiad i'r Bwrdd. Roedd unrhyw gwrs a oedd yn arwain at fynediad neu ailgychwyn cofnod ar unrhyw ran o'r gofrestr yn gorfod cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd llawn. Roedd modiwlau o fewn rhaglenni wedi'u cymeradwyo/dilysu ar y cyd yn cael eu cymeradwyo gan yr Ymgynghorwyr Proffesiynol. Eleni, roedd pob mynediad i raglenni nyrsio neu fydwreigiaeth wedi cael eu ail-lunio i gyd-fynd â'r Fenter Cymwys i Ymarfer ac o'r herwydd roedd rhaid dilyn y broses cymeradwyo/dilysu'n llawn. Newidiodd UKCC y safonau ar gyfer cofnodi cymwysterau hyfforddiant athrawon hefyd ac yr oedd hyn yn gofyn am adolygiad o'r holl gyrsiau oedd yn bodoli'n barod yn ogystal ag ymweliadau i'r cyrsiau newydd a oedd yn cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth. Cafodd y Tîm Ymgynghorwyr Proffesiynol ei gydnabod am gyflawni'r dasg enfawr hon a hynny serch y diffygion staff oedd yn bodoli. Dangosir rhestr o SAU cymeradwyedig ynghyd â'u holl gyrsiau yn Adran 4: Atodiad 4.

Rhoi Cyngor

Er bod rhaid gwahaniaethu'n bendant rhwng gweithgareddau rhoi cyngor a rhoi cymeradwyaeth fel bod y budd mwyaf o gael Ymgynghorwyr Proffesiynol ar gael i ddarparwyr addysg heb gyfaddawdu gwrthrychedd y swyddogaeth cymeradwyo, bu galw mawr am gyngor yn ystod 2001/2002. Yn ogystal ag ymweliadau ffurfiol i ddibenion sicrhau ansawdd, gwahoddwyd yr Ymgynghorwyr Proffesiynol yn aml gan ddarparwyr addysg i gymryd rhan mewn datblygu cyrsiau a modiwlau. Gallai'r math hwn o weithgaredd amrywio o fynychu cyfarfodydd cynllunio cwricwlwm, darllen dogfennau drafft, i gynnig cyngor dros y ffôn neu ar e-bost. O ystyried y nifer eithriadol o gyrsiau newydd neu gyrsiau cyfnewid a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn hon, mae'r math hwn o weithgaredd wedi bod yn fwy amlwg nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Arholi ac Asesu

Ffurf arall o sicrhau ansawdd yw'r un sy'n cael ei ymarfer o fewn y swyddogaeth arholi ac asesu. Sicrhaodd y Bwrdd, wrth ail-gymeradwyo neu ail-lunio unrhyw gwrs, bod hynny'n arwain ar gymhwyster cymeradwyedig sy'n gofyn am lwyddiant yn y maes academaidd fel rhag amod i gymhwyster proffesiynol WNB. Bydd y cymhwyster proffesiynol ddim ond yn cael ei ddyfarnu ar ôl i'r dyfarniad prifysgol cysylltiedig gael ei gyflawni. Y bwriad oedd y byddai pob cymhwyster yn cael ei seilio ar ddyfarniad prifysgol gynted ag yr oedd y cyrsiau trosi o fod yn nyrs restredig wedi cael cydnabyddiaeth o'r fath yn 2001/2002. Wrth i'r flwyddyn ddod i'w therfyn roedd un cwrs trosi yn parhau i fynd drwy'r broses o gael ei gymeradwyo gan y brifysgol. Mae arholwyr allanol yn cael eu penodi gan y Sefydliadau Addysg Uwch gyda chymeradwyaeth WNB. Fel rhan o'r broses monitro barhaus, cyflwynir adroddiadau'r holl arholwyr allanol i'r Bwrdd, i'w hadolygu gan Ymgynghorwyr Proffesiynol WNB, yn ogystal ag i'r SAU ac mae'r Ymgynghorwyr Proffesiynol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Arholi.

Dychwelyd i Ymarfer

Daeth rhaglenni Dychwelyd i Ymarfer yn ofynnol yn Ebrill 2000 i'r rhai oedd yn dychwelyd ar ôl blwch sylweddol. Roedd y cwrs cymeradwyedig gan WNB cyntaf yn ei le yn Abertawe erbyn

Ebrill 2000. Erbyn Ebrill 2001, roedd yr holl SAU (5), sy'n cynnig rhaglenni am fynediad cychwynnol i'r proffesiynau, wedi datblygu cyrsiau a chael eu cymeradwyo gan y Bwrdd ac yr oedd rhyddfrait o Brifysgol Morgannwg i Goleg Penfro wedi cael ei gymeradwyo. Cwblhawyd cyrsiau gan 161 o nyrsys a 3 bydwaig hyd at Ebrill 2002. Roedd yr holl gyrsiau Dychwelyd i Ymarfer yn arwain at greydau Addysg Uwch, felly mae'r rhai sy'n dychwelyd wedi ail-gychwyn eu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus yn ogystal â'u sgiliau ymarfer. Roedd y cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd, y SAU a'r darparwyr gwasanaeth drwy gydol datblygiad y Rhaglenni Dychwelyd i Ymarfer yn golygu fod pob un yn cyflawni'r safonau cenedlaethol cytunedig ar gyfer Cymru.

Rhagnodi gan Nyrsys

Mae'r camau dechreuol i gyflwyno rhagnodi gan nyrsys yng Nghymru bron wedi cael eu cwblhau ac yr oedd pob Sefydliad Addysg Uwch (SAU) o fewn cyrraedd i'r nod o orffen rhaglenni hyfforddi i ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal sydd mewn gwaith yng Nghymru ar hyn o bryd erbyn Gorffennaf 2002. Mae ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal sydd newydd gymhwyso hefyd wedi cwblhau'r rhaglen rhagnodi gan nyrsys. Roedd y rhaglenni yn cynnig credydau academaidd ar lefel Diploma Addysg Uwch ac yn caniatáu i ymarferwyr gofnodi nodyn ar eu cofnod yn y gofrestr a gedwir gan UKCC. Mae'r gwerthusiad wedi bod yn bositif ac mae cylch gorchwyl gwreiddiol y Pwyllgor Llywio Rhagnodi gan Nyrsys wedi cael ei gyflawni. Bydd y cyrsiau presennol yn parhau i redeg fel rhan o baratoad ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal. Gyda'r datblygiad diweddar o ymestyn rôl rhagnodi gan nyrsys i bob nyrs gofrestrdig lefel gyntaf ac ehangu y rhestr Meddyginiaeth wedi'i Ragnodi'n Unig, bydd pwyllgor llywio newydd yn cael ei sefydlu i gymryd y datblygiadau ymlaen yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y rhaglenni newydd yn cael eu datblygu ar lefel gradd ar gyfer y rhagnodi ehangach a bydd yn dechrau yn Ebrill 2003. Penderfynwyd eisoes y bydd rhaglenni yn cael eu datblygu'n gyfochrog ar gyfer rhagnodi annibynnol a rhagnodi cyflenwol (mewn partneriaeth â meddygon teulu).

Mynegai Hyfforddi Myfyrwyr

Parhaodd y Bwrdd i gynnal ei Fynegai Hyfforddiant Myfyrwyr electronig. Fel modd o dracio myfyrwyr o dan hyfforddiant mae'n darparu trefn wirio ac mae'n rhan o'r broses Sicrhau Ansawdd yn ogystal â chael ei ddefnyddio i anfon canlyniadau i UKCC pan gwblheir cwrs. Mae'n sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei hanfon ymlaen i'r rheoleiddiwr. Bydd y swyddogaeth hon yn cael ei pharhau gan Broffesiynau Iechyd Cymru, ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru.

10. ATHRAWON

Cyrsiau a Myfyrwyr

Cyhoeddodd UKCC safonau adolygedig ar gyfer paratoad cychwynnol athrawon nyrsio, bydweigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd ym mis Mawrth 200, a ddaeth i rym ar draws y DG ar 1 Medi 2001. Mae'r safonau yn cynnwys canlyniadau dysgu ar gyfer dau fath o athrawon: y Darlithydd ac Addysgwyr Ymarfer. Mae paratoi Darlithwyr yn canolbwyntio ar addysgu mewn lleoliad Addysg Uwch yn bennaf, tra bo paratoi Addysgwyr Ymarfer yn tueddu mwy at addysgu yn y maes clinigol. Mae gan athrawon sydd wedi eu hyfforddi un ai fel Darlithwyr neu Addysgwyr Ymarfer yr un cofnod ar y gofrestr broffesiynol, sef athrawon cofnodedig. Os yw athrawon yn newid eu rôl yn ddiweddarach, er enghraifft o Addysgwr Ymarfer i Ddarlithydd, nid oes raid iddynt ddilyn unrhyw hyfforddiant ffurfiol pellach. Cyfrifoldeb y cyflogwr newydd yw trefnu rhaglen sefydlu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r safonau a osodwyd gan UKCC ar gyfer eu

rôl newydd. Ni wneir unrhyw newid i gofnod yr unigolyn ar y gofrestr broffesiynol o ganlyniad i unrhyw newid rôl.

Y Safonau Newydd

Mae safonau newydd UKCC yn cynnwys nifer o feini prawf, gyda rhai ohonynt yn wahanol i'r safonau blaenorol. Dyma'r prif wahaniaethau: bydd yr astudio ar lefel ôl-radd (ni nodwyd lefel yn flaenorol) a rhaid i'r elfen ymarfer dysgu fod yn cyfateb i ddeuddeg wythnos amser llawn (roedd y gofynion blaenorol yn nodi wyth wythnos o ymarfer dysgu amser llawn).

Cymeradwyo Cyrsiau

Roedd cyflwyniad y safonau newydd yn golygu bod yr holl gyrsiau a gymeradwywyd gynt ar draws Cymru yn gorfod cael eu hadolygu er mwyn cael eu hystyried ar gyfer eu ail-cymeradwyo gan WNB. Mewn dau achos, arweiniodd y safonau newydd at raglenni a gymeradwywyd yn flaenorol yn methu cyflawni'r meini prawf ar gyfer eu hail-gymeradwyo ar gyfer myfyrwyr newydd gan mai cyrsiau TAO oedd y ddau, yn cael eu haddysgu yn gyfan gwbl ar lefel israddedig. Fodd bynnag, roedd y rhai oedd ar y cyrsiau eisoes yn gallu eu cwblhau a byddai monitro safonau yn parhau nes i bob myfyriwr gwblhau. Yn ffortunus, yn ystod y flwyddyn hon datblygodd nifer o sefydliadau eraill raglenni yn cyd-fynd â'r safonau newydd. O ganlyniad mae chwe cwrs cymeradwyedig ar draws Cymru, ac un ohonynt yn cael ei gyflwyno drwy ddulliau dysgu o bell.

Niferoedd yn Ennill Cymwysterau

Yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002, rhoddwyd 29 o fyfyrwyr newydd ar y mynegai a chwblhaodd 15 myfyriwr gyrsiau hyfforddi athrawon cymeradwyedig gan WNB yn llwyddiannus ac yr oeddynt yn gymwys i gofnodi'r cymhwyster gyda UKCC.

Datblygiad Parhaus Darlithwyr

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, darparodd y Bwrdd gyllid i'r prif ddarparwyr addysg i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo datblygiad staff darlithio a'u cydweithwyr clinigol. Roedd y gweithgareddau yn cynnwys cefnogi myfyrwyr ar raglenni cychwynol hyfforddi athrawon, cynnal gweithdai a seminarau a chefnogi darlithwyr i fynychu cynadleddau yn y DG.

Cyllid ar gyfer Addysg Barhaus

Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y dosraniad llawn o £75,000 i'r WNB ar ddechrau'r flwyddyn i hyrwyddo hyfforddiant cychwynol athrawon a gweithgareddau gweithdai. Rhannodd y Bwrdd £60,000 yn uniongyrchol i'r Ysgolion ym mis Mai 2001, a rhannwyd y £15,000 oedd yn weddill i gefnogi gweithgareddau penodol yn ystod gweddill y flwyddyn.

Cymrodoriaethau Hyfforddiant Ymchwil

Dechreuodd Cymrodoriaethau Hyfforddiant Ymchwil WNB yn 1995. Y bwriad oedd cynyddu sgiliau ymchwil darlithwyr er mwyn gwella addysgu ymchwil a'i gymhwyso, a thrwy hynny annog datblygu gofal wedi'i seilio ar dystiolaeth. Roedd pob cymrodoriaeth yn parhau am flwyddyn. Roedd y ffocws yr hyfforddiant sgiliau ymchwil yn cael ei hyrwyddo drwy brosiect oedd yn archwilio pwnc mewn addysg a/neu ymarfer clinigol. Roedd y Cymrodoriaethau yn

bartneriaeth rhwng y Bwrdd, a oedd yn cynnig peth arian ac yn monitro'r cymrodoriaethau, ysgolion nyrsio a bydwreigiaeth a oedd yn dewis y cymrawd ac yn ei ryddhau i astudio, ac adrannau ymchwil nyrsio a oedd yn darparu'r rhaglen hyfforddi. Yn 2000/2001, roedd cyllid ar gyfer pump darlithydd nyrsio ac un darlithydd bydwreigiaeth. Oherwydd y newid yn amserlenni'r cymrodoriaethau i adlewyrchu'r flwyddyn academiaidd a chau'r Bwrdd, a oedd i ddigwydd yn wreiddiol ar 31 Awst 2001, ond a newidiodd yn ddiweddarach i 31 Mawrth 2002, ni ddewiswyd cymrodorion ar gyfer y flwyddyn Medi 2001 i Medi 2002.

Canlyniadau

Cyflwynodd y garfan olaf (2000/01) o Gymrodorion Hyfforddiant Ymchwil eu hadroddiadau i gynulleidfa wadd mewn seminar a noddwyd gan WNB ym mis Rhagfyr 2001. Yn ogystal, rhoddodd y Bwrdd arian i bob ysgol i hyrwyddo rhyddhau'r Cymrodorion i baratoi papur yn seiliedig ar eu prosiect ymchwil i'w gyflwyno ar gyfer ei gyhoeddi mewn cylchgrawn proffesiynol/academaidd perthnasol.

Y Buddion

Roedd tystiolaeth o nifer o ffynonellau yn tystiolaethu i'r buddion positif iawn i addysg, ymarfer a datblygiad personol y Cymrodorion eu hunain a ddeilliodd o'r Cymrodoriaethau Hyfforddiant Ymchwil. Y gobaith yw y bydd y Sefydliadau Addysg Uwch yn dilyn cynllun tebyg yn y dyfodol.

11. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Cydweithio

Mae Bwrdd Cenedlaethol Cymru yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau partneriaethol mewn sawl maes o'i waith. Mae'r posibilrwydd o gael dealltwriaeth agos, sydd o fudd i nodau a phrosesau cyffredin, wedi bod yn un o'r manteision o weithio yng Nghymru ers amser. Mae gweithio yn y maes rhwng darpariaeth gofal iechyd ac Addysg Uwch, fel y gwna unrhyw sefydliad sy'n ymwneud ag addysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn rhoi dealltwriaeth i rywun, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol mewn nifer o fforymau. Mae gan staff WNB ac aelodau'r Bwrdd berthynas barhaus gyda'r nifer o haenau sy'n gweithio yn, gwasanaethu a chael eu gwasanaethu gan, amrywiaeth o sefydliadau o fewn ystod o ddarpariaeth cyhoeddus ac annibynnol. Mae rhai o'r rhwydweithiau a'r partneriaethau yn cynnwys pwyllgorau, gweithgorau ac unigolion yn gysylltiedig â Chynulliad Cenedlaethol Cymru; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Addysg Uwch; y GIG; y sector iechyd annibynnol; darparwyr gwasanaethau cymdeithasol; Cyngor Gofal Cymru; fforymau cleifion a defnyddwyr; rhwydweithiau gyrfaedd, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae esiamplau o gydweithio yng Nghymru y cynnwys aelodaeth yr Ymgynghorwyr Proffesiynol o'r Grwpiau Ymgynghorol Nyrsys Uwch Cymru ar gyfer Anabledau Dysgu a Nyrsio Iechyd Meddwl a'r Cyfarwyddwr - Ansawdd a Safonau yn mynychu Pwyllgor Rheolwyr Radiograffwyr Cymru. Yn ystod y flwyddyn hon, yn neilltuol, bu cyfle i fynd ag arbenigedd y Bwrdd i fforymau ehangach, fel y gwelwyd pan gyflwynodd yr Ymgynghorydd Proffesiynol (Bydwreigiaeth) bapur *Doing things that Midwives do* i'r Gynhadledd Ymchwil Nyrsio/Bydwreigiaeth Ryngwladol *Contesting Conversations* yn Adelaide, Awstralia. Roedd gwahoddiadau hefyd i ddau o staff y Bwrdd gymryd rhan mewn mentrau'r Gymuned Ewropeidd yn ymwneud ag ymarferiadau amrediad i werthuso i ba raddau y mae addysg nyrsio neu fydwreigiaeth yng ngwledydd Dwyrain Ewrop yn cyflawni gofynion Gorchmynion y GE fel rhan o geisiadau'r gwledydd hynny i ymuno â'r Gymuned Ewropeidd. Cynigir cyngor a chymorth technegol i'r gwledydd sy'n ymgeisio gan y Comisiwn Ewropeidd. Ymwelodd y Cyfarwyddwr -

Ansawdd a Safonau dros Dro â Slofenia ac Estonia a'r Ymgynghorydd Proffesiynol (Bydwreigiaeth) â Bwlgaria, Y Weriniaeth Slofac a'r Weriniaeth Czech.

Partneriaeth a Chyfraniad

Bu nifer o fentrau ar y cyd, sydd wedi bod o fantais i bobl Cymru, er budd y cyfryw yn y pen draw y mae holl waith y Bwrdd yn cael ei gyfeirio. Yn ystod 2001/2002 gwnaeth Bwrdd Cenedlaethol Cymru y canlynol:

- Parhau aelodaeth Ymgynghorwyr Proffesiynol ar Bwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru.
- Cymrodd ran mewn ehangu gorwelion y proffesiynau drwy aelodaeth y Prif Weithredwr o Bwyllgor Llywio Cynhadledd Farchnata Prif Swyddog Nyrsio Cymru.
- Cymrodd ran yng Ngrŵp Cabinet Prif Swyddog Nyrsio Cymru drwy aelodaeth y Cyfarwyddwr - Ansawdd a Safonau.
- Cadwodd ymwybyddiaeth dda o bynciau yn ymwneud â gwasanaeth drwy, ymhlith dulliau eraill, bresenoldeb swyddogion yng nghyfarfodydd Nyrsys Gweithredol (Cymru).
- Rhyngweithio parhaus gyda Cyngor, fforwm Cymru ar gyfer ysgolion nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd.
- Cefnogi gweithgareddau ymchwil ymhlith y proffesiynau drwy aelodaeth yr Ymgynghorydd Proffesiynol (Bydwreigiaeth) o'r Pwyllgor Llywio Strategaeth Ymchwil Cymru-gyfan.
- Darparu lle i'r Rheolwr Prosiect - Cymwys i Ymarfer a'r Uned Dyfarniadau Myfyrwyr GIG o Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn caniatáu mwy o gydweithio gyda'r sawl yr oedd eu gwaith wedi'i gysylltu mor agos â gwaith WNB.
- Cynnal prosiect ar y cyd gyda Choleg Brenhinol Nyrsio Cymru i roi gwasanaeth gwybodaeth rhad ar y rhyngwe am leoliadau llyfrgelloedd a gwybodaeth am wasanaethau i nyrsys yng Nghymru.

Ymgynghori

Trwy ei fewnbwn i amryw o ymgynghoriadau y gwnaeth y Bwrdd gyfraniad sylweddol i ofal iechyd, addysg, rheoleiddio proffesiynol. Roedd y canlynol yn neilltuol:

- *Sefydlu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd newydd*, (DH 2001).
- *Gwella Iechyd yng Nghymru, Newid Trefniadaeth yn y GIG*: dogfen ymgynghorol (CCC 2001b).
- *Gwella Iechyd yng Nghymru, Dyfodol Gofal Sylfaenol*: dogfen ymgynghorol (CCC 2001d).
- *Talu am Ofal Nyrsio mewn Cartrefi Nyrsio, Papur Ymgynghori* gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC 2001e).

- *Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru*, Adroddiad gan yr Uned Bolisi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC 2001f).
- *Gofynion ar gyfer rhaglenni yn arwain at gofrestrriad fel ymwelydd iechyd* (UKCC 2001b).
- *Ymgynghori ar y Codau Ymarfer i Gyflogwyr a Gweithwyr yn y Sector Gofal Cymdeithasol* (Cyngor Gofal Cymru/Care Council for Wales 2002).

Senedd

Roedd y Bwrdd yn weithredol o ran cyfrannu tuag at, a chymryd rhan yn y pedwar digwyddiad Senedd hynod o lwyddiannus ar draws Cymru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol cafwyd presenoldeb da. Mae'r digwyddiadau, sy'n cael eu noddi gan amrywiaeth eang o sefydliadau llywodraeth, iechyd, addysg ac aelodau, yn cynnig cyfle i unrhyw nyrs, bydwraig neu ymwelydd iechyd i wrando ar araith allweddol a roddir un ai gan unigolyn blaenllaw yn y proffesiwn neu rywun arall gyda barn arwyddocaol. Wedi hynny, mae cyfle i gyfrannu at y drafodaeth ffurfiol ac i rwydweithio'n anffurfiol.

Cyflogwyr yn y Maes Iechyd

Mae WNB yn cynnig cefnogaeth i gyflogwyr iechyd sydd eisiau cael marc barcud i'w rhaglenni hyfforddiant mewn swydd a'u rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r tîm Ymgynghorwyr Proffesiynol yn ymweld â'r darparwr gofal iechyd i sicrhau fod y ddarpariaeth ar gyfer dysgu a hyfforddi yn cyflawni safonau'r Bwrdd ar gyfer achrediad fel Canolfan Astudio WNB. Yn dilyn yr achrediad cychwynnol, mae ymweliadau adolygiadau blynyddol ffurfiol yn digwydd i sicrhau fod safonau yn cael eu cynnal neu eu gwella ac i gynnig cyngor. Ar hyn o bryd mae 20 o Ganolfannau Astudio cymeradwyedig. Gweler Adran 4: Atodiad 5.

Cefnogi Datblygiad Proffesiynol

Yn ystod y flwyddyn hon roedd y Bwrdd yn gallu cefnogi datblygiad proffesiynol dau reolwr drwy ddarparu lleoliadau secondiad. Ymunodd Ruth Keil, Rheolwr Gwasanaethau Nyrsio Ardal yn Ymddiriedolaeth GIG Caerfyrddin â WNB fel Swyddog Prosiect - Addysg Broffesiynol yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos dros dri mis i gefnogi'r Tîm Ymgynghorwyr Proffesiynol. Astudiodd Judith Allen, Swyddog Datblygu Addysg gyda RCN Cymru yng Nghaerdydd, y camau cychwynnol o'r prosiect Cymwys i Ymarfer.

12. AROLYGU BYDWRAGEDD

Rôl Statudol

Roedd yn ofynnol i'r Bwrdd roi cyngor a/neu arweiniad i Awdurdodau Arolygu Lleol (AAL) yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â arolygiaeth statudol bydwagedd. Roedd y pump Awdurdod Iechyd wedi'u henwebu yn AALau ar y pryd. Roedd pob AAL wedi penodi, ar sail rhan amser, Prif Arolygwr Bydwagedd gyda chyfrifoldebau dirprwyedig mewn perthynas â'r broses arolygu. Roedd y Prif Arolygwr hefyd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r Awdurdod Iechyd am y gofynion o ran arolygiaeth statudol bydwagedd ac ar faterion bydwreigiaeth yn gyffredinol. Roedd pob ardal yng Nghymru wedi cyrraedd y safon minimwm 1: 40 o Arolygwyr i Fydwragedd a argymhellir gan UKCC yn rhwydd.

Rhoi Cyngor

Ymwelodd yr Ymgynghorydd Proffesiynol (Bydwreigiaeth) yn ffurfiol â'r Swyddog Cyfrifol a/neu y Prif Arolygwr ym mhob AALI bob blwyddyn a chynhaliodd y cysylltiad drwy lythyr a ffôn drwy gydol y flwyddyn. Ar ben hynny, mynychodd gyfarfodydd Arolygwyr Bydwagedd ym mhob Awdurdod Iechyd. Roedd trefniadau'r dyfodol ar gyfer cyngor ac arweiniad i AALlau yn dilyn trosglwyddo'r swyddogaeth hon i'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth newydd yn eitem gyffredin ar yr agenda ar draws Cymru yn 2001/2002. Cymrodd y Prif Arolygwyr Bydwagedd yng Nghymru a'r Ymgynghorydd Proffesiynol (Bydwreigiaeth) ran mewn cyfarfodydd a arweiniwyd gan UKCC, i baratoi ar gyfer y trefniadau newydd.

Canllawiau Cymru-gyfan

Yn Ebrill 2001, lansiodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cynulliad, y *Canllawiau ar gyfer Arolygiaeth Statudol Bydwagedd yng Nghymru*. Lluniwyd y ddogfen gan y Prif Arolygwyr yng Nghymru gyda chymorth staff WNB a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gweithdai

Cynhaliodd WNB weithdy blynyddol i Arolygwyr i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'r gofynion statudol i gael eu diweddarau. Thema gweithdy eleni oedd *Amseroedd Cyfnewidiol - oblygiadau a chyfrifoldebau Arolygwyr Bydwagedd*. Yn 2001/2002 roedd 111 o Arolygwyr Bydwagedd yng Nghymru.

13. GWASANAETH GWYBODAETH GYRFAOEDD

Rolau a Thueddiadau

Mae cyfrifoldebau statudol WNB yn cynnwys darparu gwybodaeth gyrfaoedd i'r rheiny sydd eisiau dod i mewn i'r proffesiwn ac i'r rhai sydd eisiau parhau gyda'u datblygiad proffesiynol ar ôl cymhwyso a chofrestru. Roedd cynnydd sylweddol eleni yn yr ymholiadau am yrfaoedd, a oedd wedi dangos gostyngiad bychan yn y blynyddoedd blaenorol, ac yr oedd y galw eleni yr uchaf erioed (gweler Adran 4: Atodiad 8). Mae'r cynnydd wedi bod yn bennaf yn yr ymholiadau gan asiantaethau eraill am lenyddiaeth am fynediad i'r proffesiynau i'w ddsbarthu yng Nghymru. Bu mwy o weithgareddau yn canolbwyntio ar yrfaoedd eleni, naill ai gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn gweithio fel un corff o dan faner Adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cynulliad Cymru neu gan gyflogwyr unigol yn y GIG. Mae Sefydliadau Addysg Uwch wedi cynnal lefel eu defnydd o lenyddiaeth yn deillio o WNB. Bu cynnydd sylweddol yn y llenyddiaeth a ddsbarthwyd i Ganolfannau Gwaith, sy'n cael ei drefnu drwy drefniant arbennig gyda Swyddfa Ranbarthol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Trefnwyd hyn gan Brif Ymgynghorydd Cyflogaeth Nyrso a Gofal Iechyd yr Adran.

Datblygiadau'r Dyfodol

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gyrfaoedd hefyd wedi gweld tuedd gynyddol yn yr ymholiadau am fynediad i broffesiynau gofal iechyd eraill. Mae hyn wedi bod yn neilltuol o wir am weithwyr proffesiynol cymwys o dramor yn ceisio mynediad i'r DG i weithio. O ystyried bod llawer o'r proffesiynau hyn yn rai gyda phrinder yn y gweithlu o fewn GIG Cymru, mae'r Gwasanaeth

Gwybodaeth Gyrfaoedd wedi ceisio rhoi'r ateb mwyaf defnyddiol i'r ymholwyr er mwyn cyflwyno gwasanaethau iechyd Cymru y y goleuni mwyaf positif i ddarpar weithwyr. Fodd bynnag, mae'r duedd yn dangos yr angen am un lleoliad i gyfeirio gyrfaoedd i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru, a bydd y mater hwn yn cael ei drafod o fewn cylch gorchwyl y corff newydd, Proffesiynau Iechyd Cymru.

Deunyddiau Cymraeg

Mae pob gwybodaeth gyrfaoedd ar gyfer y farchnad gartref yn parhau i fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae gwybodaeth Gymraeg a Saesneg yn cael ei hanfon ar gyfer ei defnyddio yng Nghymru ac i bawb sy'n holi os os ganddynt gyfeiriad yng Nghymru. Mae'r un wybodaeth yn Saesneg yn cael ei chyflenwi i weddill y DG ac i ymholiadau o dramor. Mae peth deunydd gwybodaeth wedi cael ei lunio ar gyfer ymholiadau o dramor a chyflenwir hwn yn Saesneg yn unig ac nid yn y Gymraeg. Mae'r wefan yn ddwyieithog gyda gwybodaeth gyrfaoedd yn cael ei darparu yn Gymraeg a Saesneg.

Rheoli'r Gwasanaeth

Roedd ymholiadau gyrfaoedd yn parhau i gael eu trin gan gyfuniad o staff gweinyddol a staff proffesiynol. Mae'r cysylltiad cyntaf gyda'r adran weinyddol, gyda dim ond yr ymholiadau mwyaf arbenigol yn cael eu pasio ymlaen i'r Rheolwr Gwybodaeth Gyrfaoedd neu Ymgynghorydd Proffesiynol. Cafodd aelodau unigol o'r proffesiynau fynediad at gyngor gyrfaoedd unigol, dwys gan yr Ymgynghorwyr Proffesiynol neu'r Cyfarwyddwr- Ansawdd a Safonau. Ar adegau, o dan bwysau, fel yr achosir gan ymgyrchoedd recriwtio nyrsys cenedlaethol, efallai bydd raid defnyddio swyddogion eraill yn ogystal â'r adnoddau a ddisgrifiwyd eisoes. Mae'r ymrwymiad hwn ar ran staff y Bwrdd i gyflwyno'r gwasanaeth a'r hyblygrwydd wedi ein galluogi i gyflawni'r meini prawf mwyaf llym yn ystod blwyddyn o newidiadau sylweddol yn y staff. (Gweler Adran 4 Atodiad 9.)

Cyfryngau Gyrfaoedd

Parhaodd y Rheolwr Gwybodaeth Gyrfaoedd i dargedu gwybodaeth ac i gael ei gwahodd i ysgrifennu erthyglau i ddiwallu gofynion cyhoeddi nifer o olygyddion comisiynu a oedd yn ceisio diweddarau llyfrau cyfeirio neu gyfryngau eraill ac i gynhyrchu rhifynnau gyrfaoedd arbennig i gylchgronau neu atodiadau papurau newydd. Oherwydd yr arbenigedd oedd ar gael yn y Bwrdd, ni chyfyngwyd hyn i gyhoeddiadau Cymreig ond yr oedd yn cynnwys ceisiadau am fewnbwn i gyhoeddiadau y DG a rhai rhyngwladol. Gwahoddwyd y Rheolwr Gwybodaeth Gyrfaoedd ac Ymgynghorydd Proffesiynol i wneud cyflwyniadau i grwpiau o nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yng Nghyngres y Coleg Nyrsio Brenhinol yn Harrogate. Dyma un esiampl o'r cyflwyniadau a wnaeth Ymgynghorwyr Proffesiynol i grwpiau o staff a myfyrwyr drwy Gymru. Roedd bras gyflenwadau o lenyddiaeth ar gael i nifer o ddigwyddiadau gyrfaoedd yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DG, drwy gydol y flwyddyn. Roedd rhai yn cael eu targedu at bobl yn ceisio mynediad i'r proffesiynau ac eraill at nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd cymwys yn chwilio am ddatblygiad gyrfa.

14. CYFATHREBU

Cyfarfodydd y Bwrdd

Parhaodd gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd i gymryd lle bob chwarter ym mhencadlys y Bwrdd yng Nghaerdydd. Er bod croeso i unrhyw un fynychu'r sesiwn agored, aelodau'r proffesiynau sydd

wedi bod yn gwneud yn bennaf. Mae nyrsys, bydwagedd, ymwelwyr iechyd a budd-ddeiliaid eraill wedi cymryd y cyfle i gyfarfod ag aelodau o'r Bwrdd a swyddogion ac i weld sut mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, fel arfer, anfonodd Ysgol Gwyddorau Gofal Prifysgol Morgannwg aelodau o'i staff dysgu fel rhan o'u gweithgareddau paratoi neu ddiweddarau. Mynychodd tîm o ymgynghorwyr RCN Direct gyfarfodydd y Bwrdd fel rhan o'u rhaglen datblygiad parhaus.

Adroddiad Blynyddol

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon blaenorol ar y wefan yn ogystal â mewn copi caled. Roedd y dosbarthiad yn cynnwys budd-ddeiliaid mewn addysg broffesiynol a darparwyr gofal iechyd a phrynwyr yn ogystal ag amrywiaeth o 'bartïon eraill â diddordeb' fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, academwyr a llyfrgelloedd cenedlaethol.

Cylchlythyr

Cyhoeddwyd *Newyddion*, cylchlythyr dwyieithog y WNB, dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Dosbarthwyd bron i 9,000 o gopiâu i 2,000 o gyfeiriadau. Caniataodd cydweithrediad cyflogwyr iechyd, nyrsys uwch a'u staff cefnogi i'r rhwydwaith ddosbarthu anfon y rhif uchaf o gopiâu am y gost isaf. Roedd *Newyddion* yn canolbwyntio ar bynciau addysgiadol ar gyfer gwahanol adrannau o'r proffesiynau ac ar newidiadau yn y Bwrdd ac yn y drefn reoleiddio. Anogodd gyfarfodydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar gyfer Penaethiaid Cyfathrebu o fewn Cyrff Noddedig gan y Cynulliad (CNCau), i CNCau adnabod a chyflawni prosiectau i amlygu pwysigrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yng ngweithgareddau CNCau. Bu'n bosib cydweithio gyda Chyfarwyddwr GIG Cymru a Swyddfa'r Brif Nyrs i gynnwys ysgrifau nodweddiadol o fewn *Newyddion* ar ddarlith Senedd a draddodwyd gan y Cyfarwyddwr ac ar weithgareddau'r Ymgynghorwyr Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd newydd, a thrwy hynny, cyflawnwyd y canlyniadau gofynnol o fewn y cyfleodd cyhoeddusrwydd cyfyngedig sydd yn dal ar gael i'r Bwrdd yn ystod ei fisoedd olaf.

Cyhoeddiadau

Adolygwyd a diweddarwyd Llawlyfr WNB, a oedd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar bolisi a rheoleiddio, ac yn Ionawr 2002 fe'i rhoddwyd i bob darlithydd yn ymwneud â chysiau cymeradwyedig y WNB yng Nghymru. Roedd hefyd ar gael ar y wefan. Oherwydd i gyflenwadau gwybodaeth eraill a thafenni cyhoeddusrwydd fynd yn isel, penderfynwyd peidio ail argraffu nes bod enw a swyddogaethau'r corff newydd yng Nghymru yn fwy eglur. Serch hynny, gan i'r gofyn am wybodaeth gyrfaol barhau yn neilltuol o uchel, bu'n rhaid ail argraffu'r llyfryn lliw am fynediad i nyrsio, "*Nyrsio, Mae'n Gwneud i Chi Feddwl*", ond fe reolwyd hyn yn ofalus i osgoi gwastraff. Roedd cyhoeddiadau gwybodaeth a gynhyrchir yn fewnol wedi parhau i gael eu diweddarau yn fisol neu'n wythnosol, os oedd angen. Cyhoeddwyd y ddau gategori ar y wefan yn ogystal.

Gwefan

Ar yr un pryd, rhoddwyd pob dogfen a gyhoeddwyd ar y wefan ddwyieithog, ac yr oedd cyhoeddi yr un pryd yn digwydd mor fuan ag yr oedd adnoddau yn caniatáu.

Rhyngrwyd

Bydd staff y Bwrdd yn defnyddio e bost yn fewnol ac yn allanol pryd bynnag fo hynny'n briodol. Mae gan bob aelod staff gyfeiriad e bost ac maent wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnydd y cyfrifiadur a'r meddalwedd er mwyn gwneud y gorau o'u hamser ac adnoddau'r Bwrdd wrth gyfathrebu.

15. YR IAITH GYMRAEG

O ganlyniad cau'r WNB cyflwynwyd y trydydd adroddiad blynyddol, a'r un terfynol, i Fwrdd yr Iaith Gymraeg (WLB) ar weithrediad parhaus Cynllun Iaith Gymraeg y WNB (1998). Cyflwynodd y WNB adroddiad cynhwysfawr i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghyd ag amrywiaeth o enghreifftiau a oedd yn dangos cynnydd parhaus wrth weithredu'r Cynllun. Derbyniwyd ymateb ffurfiol i'r adroddiad a oedd yn cydnabod ymroddiad a chynnydd WNB hyd yma. O ganlyniad i'r broses newid, cafwyd gyfarfod ar y cyd er mwyn hysbysu Bwrdd yr Iaith o broses ac effaith y newid. Roedd y drafodaeth yn cynnwys adolygiad arfaethedig Cynllun Iaith Gymraeg WNB. Cytunwyd i ganiatáu i'r Cynllun presennol barhau hyd nes cau'r WNB ac i Broffesiynau Iechyd Cymru sefydlu Cynllun Iaith Gymraeg newydd. Cytunodd WNB i ddal ymlaen gyda'i ymrwymadau presennol. Mae gweithrediad Cynllun Iaith Gymraeg WNB wedi cynnwys:

- Cyflwyno delwedd ddwyieithog yn barhaus.
- Cyhoeddiadau dwyieithog, ar wahân i ychydig o ddeunydd darllen am yrfaeodd i wledydd tramor.
- Cyhoeddi gwybodaeth gyrfaoedd yn y ddwy iaith i'r farchnad gartref.
- Diweddarau gwefan ddwyieithog y Bwrdd yn gyson.
- Diweddarau ac ailgyhoeddi Llawlyfr dwyieithog y WNB.

Mae'r Cyfarwyddwr – Ansawdd a Safonau yn aelod o Weithgor Iaith Gymraeg Cynulliad Cymru. Parhaodd swyddogion i hybu'r iaith Gymraeg drwy'r trefniadau sicrhau ansawdd a thrwy ddatblygu a darparu cyrsiau: er enghraifft, cymeradwywyd modiwlau Dyfarniadau ar y Cyd a'r llwybr cyflym drwy'r Gangen Plant ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, i gynnig rhai elfennau o'r rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg.

16. RHEOLI ADNODDAU

Mae'r Bwrdd yn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau ymarfer da a roddir i gyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac, yn ogystal, mae wedi cyflawni'r canlynol.

Arian

Yn ogystal â dangos defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau,

- derbyniwyd tystysgrifau archwilio mewnol ac allanol glân yn ystod y flwyddyn

ADRAN 2

- roedd y llyfrau'n gytbwys
- defnyddiwyd safonau gwerth gorau ar gyfer yr holl drefniadau prynu
- mae'r gwerthoedd perfformiad canlynol yn dangos cydymffurfiaeth â *Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998*; ymhlith pethau eraill, mae'r Ddeddf yn gosod norm o dalu o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb:

	2001/2002	2000/2001
	%	%
tâl ar amser	96.94	98.86
o fewn saith diwrnod i'r dyddiad dyledus	1.99	0.57
o fewn tair wythnos i'r dyddiad dyledus	0.92	0.43
mwy na thair wythnos	0.15	0.14

Ni chododd gyflenwyr y Bwrdd log ar dâl hwyr.

Technoleg Gwybodaeth

Aeth datblygiad cyfleusterau technoleg gwybodaeth y WNB yn ei flaen, yn cynnwys;

- Cyfrifiadur ar gael i bob aelod o staff, a phawb yn ei ystyried yn offer gwaith hanfodol.
- Ychwanegwyd at hyn gan yr hyfforddiant TG a roddwyd i staff.
- Pedwar aelod o staff yn ennill cymhwyster newydd, y Drwydded Yrru Cyfrifiadur Ewropeaidd (ECDL).
- Gwella rhwydwaith y Bwrdd i ymdopi â'r defnydd cynyddol o adnoddau TG y Bwrdd gan y staff.
- Diweddarau ac ailddatblygu gwefan ddwyieithog y WNB ar y rhyngwyd yn gyson.
- Ymholwyr yn defnyddio e bost ac yn chwilio am wybodaeth ar y wefan yn gynyddol.
- Trwy fod yn wylidwrus, llwyddwyd i osgoi'r effeithiau drwg y gallai'r pla diweddar o firysau cyfrifiadurol wedi eu hachosi pe baent wedi torri trwy ein hamddiffynfeydd.
- Cynhaliwyd archwiliad llawn o adnoddau TG cyn trosglwyddo i Broffesiynau Iechyd Cymru
- Wrth gydweithio'n agos gyda'r UKCC, cefnogodd staff y WNB gwblhad llwyddiannus y prosiect WISER (System Delweddu Llif Gwaith ar gyfer Rheoleiddio Effeithiol) a oedd yn ymwneud â throsglwyddo gwybodaeth electronig o Sefydliadau Addysg Uwch yn

uniongyrchol i'r Gofrestr yn Lloegr. Yng Nghymru, bydd data myfyrwyr yn parhau i gael ei drosglwyddo trwy Broffesiynau Iechyd Cymru.

Iechyd a Diogelwch

Roedd Datganiad Strategaeth y Comisiwn Iechyd a Diogelwch, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 200 – *Iechyd a Diogelwch* – yn cynnwys y rheidrwydd i bob corff cyhoeddus grynhoi eu perfformiad a'u cynlluniau iechyd a diogelwch yn eu Hadroddiadau Blynnyddol. Mae'r Bwrdd yn falch o adrodd ei fod yn cyflawni pob gofyn cyfreithiol o ran polisi ac asesu risg:

- Mae'n cynnal ac yn diweddarau, ble bo angen, y Polisi a Threfniadau Iechyd a Diogelwch yn flynyddol.
- Mae'r holl staff yn cael y Polisi a Threfniadau Iechyd a Diogelwch cyfredol.
- Ymdrinnir yn fuan â phob mater o Iechyd a Diogelwch a adnabyddir.
- Mae profion golwg ar gael i bob aelod o staff WNB a darperir sbectols pan fo angen ar gyfer defnyddio Unedau Arddangos Gweledol.
- Nid oes achosion difrifol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn nag unrhyw anafiadau, afiechydon neu ddigwyddiadau sy'n rhaid adrodd arnynt o dan RIDDOR (*Rheoliadau Adrodd Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus, 1995*).

Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos gyda Phwyllgor Gwaith Iechyd a Diogelwch (HSE), asiant ei landlord a chynrychiolydd undeb llafur y WNB ar bob mater Iechyd a Diogelwch.

Adnoddau Dynol

Yn ogystal â diweddarau staff yn gyson ar y cynnydd a wnaed ar ail-strwythuro'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio proffesiynol, sydd yn ganlyniad i adolygiad diweddar y Llywodraeth:

- Roedd Gwasanaeth Cyfarwyddyd Gyrfaoedd ac Ail-Leoli, a ddarparwyd ar gyfer staff wrth agosau at ddiddymiad y Bwrdd, yn llwyddiannus iawn.
- Cafodd Thomas J Moore, Cyfarwyddwr Ansawdd a Safonau, secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2001 fel Cyfarwyddwr y Prosiect i sefydlu corff Cymreig newydd.
- Penodwyd Jean White, ar secondiad fel Ymgynghorydd Proffesiynol o'r Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Cymru Abertawe, yn Gyfarwyddwr Dros Dro – Ansawdd a Safonau o fis Hydref 2001 er mwyn llenwi swydd y Cyfarwyddwr a oedd ar secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'i phenodwyd yn Ymgynghorydd Proffesiynol WNB o fis Mawrth ymlaen.
 - Ymunodd Nicola Rowlands â WNB o Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru am dri mis o weithgareddau datblygu, ac yn dilyn hynny cafodd secondiad fel Swyddog Prosiect – Addysg Broffesiynol o fis Hydref 2001.
 - Ym mis Tachwedd penodwyd swyddog clerigol dros dro, Jon Hussey, i weinyddu tan fis Mawrth.

- Dyrchafwyd Jean Cross, y swyddog domestig rhan amser, yn swyddog clerigol rhan amser ym mis Medi a daeth yn amser llawn ym mis Mawrth
- Ymddeolodd tri aelod o staff: Isabel Owen, John Roderick a Meg Thomas gyda'r swyddi'n dal heb eu llenwi.
- Daeth Meriel Baldwin, aelod o'r staff gweinyddol, yn amser llawn.
- Cyflawnodd y system gwerthuso a datblygu staff ei hamcanion am y flwyddyn gyda phob aelod o staff yn cael ei adolygu, ac amcanion perfformiad a chynlluniau datblygu'n cael eu hadnabod a'u cytuno, cyn belled ag oedd yn bosib, ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

17. SIARTR Y DINESYDD

Parhaodd y Bwrdd i fonitro a gwella lefelau ei wasanaeth trwy weithredu yn ôl safonau perfformiad penodol. Yn 2001/2002 ni dderbyniodd y Bwrdd unrhyw gwynion, a derbyniwyd tri deg tri o ganmoliaethau: un llythyr a thri deg dau e bost. Roedd staff WNB yn ymrwymedig i roi safon uchel o wasanaeth cyhoeddus ac yr oeddynt yn gweithio i'r amseroedd ymateb canlynol, a gyflawnwyd yn 2001/2002:

- Dau fis calendr oedd amser cwblhau cymeradwyaeth cyrsiau o dderbyn y cyflwyniad cychwynnol i gadarnhau'r canlyniad.
- Dau fis calendr oedd amser cwblhau gwaith Achredu Canolfannau Astudio o dderbyn y ffurflen gais i gadarnhau'r canlyniad.
- Cwblhawyd adroddiadau dilynol ar Adolygiadau Proffesiynol/SicrhauAnsawdd ac Ymweliadau i Awdurdodau Arolygu Lleol o fewn 20 diwrnod gwaith.

18. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Bwrdd a'i noddwr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithredu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cytunwyd ar dri o ddangosyddion perfformiad ar gyfer 2001/2002:

- Ymateb o fewn saith diwrnod i geisiadau am wybodaeth gyrfaoedd;
- Cymeradwyo darparwyr a chysiau addysg yn ôl meini prawf y Bwrdd;
- Ymgymryd ag adolygiad proffesiynol/sicrhau ansawdd blynyddol gyda deg o ddarparwyr addysg.

Er gwaethaf blwyddyn o newid a phryder mawr i staff, gyda cholled sawl aelod pwysig o'r tîm a bylchau hyd nes y gellid gwneud trefniadau gwahanol, bu'n dal yn bosib cyflawni holl ddangosyddion perfformiad. Serch hynny dylid gwerthfawrogi y gwnaed hyn ar draul aelodau staff unigol, rhywbeth na fyddai'n dderbyniol fel norm. Am wybodaeth pellach ar berfformiad y flwyddyn ddiwethaf gweler Adran 4: Atodiad 9.

19. TERFYNU'R BWRDD A THROSLWYDDO EI SWYDDOGAETHAU**Amcanion**

Diddymwyd fframwaith reoleiddio blaenorol Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd a'r pedwar Bwrdd Cenedlaethol ar ddiwedd mis Mawrth 2002. Daeth Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yn unig gorff rheoleiddio y DG, wedi'i gynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd ym mhob gwlad. Yng Nghymru, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu'n barod i sefydlu corff newydd ar gyfer Cymru, a allai ymgymryd â sicrhau ansawdd ar ran y CNB newydd a swyddogaethau ychwanegol ar ran y Cynulliad. Serch hynny, byddai angen deddfwriaeth gan Senedd y DG ar hyn, o ystyried y cyfyngiadau deddfwriaethol sydd yn wynebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y bwriad oedd y byddai Deddf GIG (Cymru), fel y nodwyd yn Araith y Frenhines, yn sefydlu'r corff newydd ar gyfer Cymru. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Mesur yn cael ei ddrafftio. Yna byddai'n rhaid ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori â'r bobl berthnasol ac o bosib ei adolygu, a dim ond wedyn y gellid ei gyflwyno i gael ei gynnwys yn amserlen y Senedd. Felly, bydd cyfnod interim heb Gorff wedi'i Noddi gan y Cynulliad. Er mwyn osgoi bwlch o flwyddyn neu ddwy ac er mwyn parhau i gynnal gwasanaethau'n llyfn i gefnogi'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth, cytunwyd y byddai staff y Bwrdd yn aros yn Nh Golate ond, yn absenoldeb Bwrdd o aelodau i ddarparu'r haen reoli uchaf, byddent, yn dechnegol, yn dod yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Strategaeth Rheoli Newid

Ar ddechrau'r flwyddyn, sefydlodd Lywodraeth Cynulliad Cymru Bwyllgor Rheoli Newid (Cymru) newydd i ymdrin â phynciau'n ymwneud â chorff newydd i Gymru. Nid oedd ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i benodi Cyfarwyddwr Prosiect i gefnogi sefydlu'r corff newydd wedi bod yn llwyddiannus. Gan fod yr angen i reoli'r prosiect yn parhau, sefydlwyd Gweithgor Gweithredu Prosiect o reolwyr WNB a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad nes penodi Cyfarwyddwr Prosiect. Yn ystod yr Hydref, cytunodd y Cynulliad a'r Bwrdd i gynnig secondiad i'r Cyfarwyddwr – Ansawdd a Safonau i'r Cynulliad yn amser llawn er mwyn rheoli'r prosiect. Golygai hyn y byddai diffyg staffio o fewn y t~~x~~m Ymgynghori Proffesiynol gan y byddai'n rhaid i un o'r Ymgynghorwyr Proffesiynol gamu i rôl y Cyfarwyddwr ac ni fyddai'n bosib cael secondiad amser llawn i lenwi'r bwlch a fyddai'n dilyn. Roedd hyn yn neilltuol o anodd o ystyried maint y gwaith sicrhau ansawdd a oedd wedi'i drefnu ar gyfer gweddill y flwyddyn ond roedd y t~~x~~m rheoli uwch, gyda chefnogaeth holl staff WNB ac aelodau'r Bwrdd, yn teimlo fod lles y cyhoedd a sicrwydd gwaith staff WNB yn hollbwysig a bod rhaid llenwi y swydd Cyfarwyddwr Prosiect, waeth beth oedd y gost, er mwyn mynd â'r Prosiect yn ei flaen. Estynnwyd aelodaeth y Pwyllgor Rheoli Newid (Cymru) i gynnwys proffesiynau gofal iechyd eraill a chynrychiolaeth yr undebau llafur. Datblygiad strategol y corff newydd i Gymru oedd ei gylch gorchwyl. Sefydlwyd Pwyllgor Llywio WNB yn ogystal i gynnwys aelodaeth llawn Cydbwyllgor Trafod WNB, Cadeirydd WNB a swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys y Cyfarwyddwr Prosiect. Ei rôl oedd goruchwyllo cau Bwrdd Cenedlaethol Cymru ac i sicrhau, yn neilltuol, y diogelid pob mater yn ymwneud â hawliau cyfreithiol gweithwyr wrth gau'r Bwrdd a'u hamddiffyn wrth iddynt drosglwyddo.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cysgodol a'i Ddyfodol

Yn ystod blwyddyn olaf oes y Bwrdd, dechreuodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cysgodol wneud penderfyniadau ar sut y byddai'n rheoli a chyflwyno ei wasanaethau. Yn ystod diddymiad Pwyllgor Rheoli Newid (DG), cytunwyd a sefydlwyd strategaeth gyfathrebu rhwng y Cyngor a WNB. Derbyniodd Prif Weithredwr WNB bapurau gan y Cyngor a mynychodd ei holl gyfarfodydd. Cyfrannodd aelodau eraill o staff WNB at drafodaethau a gwnaethant arsylwadau ar bapurau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys cymryd rhan ym Mhwyllgor Meincodi QAA a Phwyllgor Rheoli Newid Arolygiaeth Bydwagedd (DG), a chyfrannu at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cysgodol. Roedd y cytundeb hwn yn amlinellu'r costau a'r dulliau a fyddai'n cael eu defnyddio gan y corff newydd yng Nghymru wrth ymgymryd â gweithgareddau Sicrhau Ansawdd ar gyfer addysg broffesiynol ar ran y CNB. Ni fyddai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn tracio myfyrwyr mewn hyfforddiant ac felly nid oeddynt angen cynnal y Mynegai Hyfforddi Myfyrwyr. Serch hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu y bydd y Mynegai Hyfforddi Myfyrwyr yn parhau ar ôl mis Ebrill 2002 er mwyn cynorthwyo gyda gweithgareddau cynllunio gweithlu yng Nghymru ac i hwyluso'r trafferthion wrth newid. Gallai'r SAU a'r CNB ill dau wynebu trafferthion wrth sefydlu'r system drosglwyddo yn gyflym. Mae'n debyg y byddai hyn wedi gohirio cofrestru a byddai gohiriadau o'r fath yn annerbyniol yn ystod cyfnod o brinder nyrsys a bydwagedd.

Rôl WNB fel Cyflogwr

Yn ystod y cyfnod hwn o newid ansicr, rhannodd reolwyr y Bwrdd yr holl wybodaeth a dderbyniwyd o amryw ffynonellau gyda phob aelod o staff. Gwnaed hyn trwy gyhoeddi memoranda gyda phapurau cefnogi. Roedd y rhain yn amlinellu cynnydd cyfredol cyn gynted ag y deuai'r wybodaeth i law. Derbyniodd y staff yr un faint o wybodaeth ag aelodau'r Bwrdd. Yn ogystal â pholisi 'drws agored' ar gyfer unrhyw ymholiadau a fedrai godi unwaith y rhannwyd gwybodaeth, trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer yr holl staff er mwyn trafod yr oblygiadau. Parhaodd rheolwyr y Bwrdd i weithio'n agos ac ar y cyd gyda'r undebau llafur cydnabyddedig trwy'r Cyd-bwyllgor Trafod ac Ymgynghori ac yn ddiweddarach gyda Phwyllgor Llywio WNB. Adolygwyd materion oedd yn codi o drosglwyddiad arfaethedig swyddogaethau a staff, fel *Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Amddiffyn Cyflogaeth)* (TUPE), materion cyfreithiol a materion yn ymwneud â phensiynau, yn barhaus gyda phob parti nes yr oedd canlyniadau boddhaol wedi'u trafod a'u cytuno.

Cefnogi Datblygiad Staff

Er mwyn cynorthwyo aelodau unigol o staff i gynllunio ar gyfer cyfnod o newid sicr gyda chanlyniadau anhysbys, cynigiodd y Bwrdd amrywiaeth o drefniadau cefnogi. Fel corff addysgiadol, roedd y Bwrdd yn parhau i gynorthwyo a chefnogi y gweithwyr hynny a oedd yn ceisio ennill cymwysterau academaidd ffurfiol, a fyddai'n hybu eu datblygiad proffesiynol parhaus. Enillodd un Ymgynghorydd Proffesiynol ddoethuriaeth yn ystod y flwyddyn a chefnogwyd tri aelod arall o staff ar raglenni PhD. Fel cyflogwr a oedd yn edrych am hyblygrwydd, y gallu i addasu a lefel uchel o sgil gan ei staff, roedd y Bwrdd yn annog ei staff i gyd i ddod yn gyfarwydd ag amrywiaeth eang o becynnau meddalwedd ac, i'r rhai oedd yn dymuno, i ennill cymwysterau rhyngwladol cydnabyddedig fel y pedwar a gwblhaodd pob un o'r saith modiwl yn y Dyfarniad Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd yn llwyddiannus.

Rheoli Newid

Cynigiwyd asesiad a chynghor gyrfaoedd i bob aelod o staff er mwyn eu cynorthwyo i adnabod eu amcanion personol a'r darpar gyfleoedd tebygol a all ddigwydd mewn cyfnod o newid. Rhoddodd ymgynghorwyr allanol, a oedd wedi'u cyflogi i gynorthwyo'r broses:

- Sesiynau ymgynghori un i un.
- Rhaglen newid ffordd o fyw (cyn ymddeol).
- Profiad o ganolfan asesu gyda phroffion seicometrig.
- Gweithdai hunan-farchnata i gynnwys datblygu CV.

Canmolodd Unison y gweithgareddau hyn yn y Cyd-bwyllgor Trafod ac Ymgynghori fel esiampl o ymarfer da wrth reoli newid.

20. EDRYCH YN OL AC YMLAEN

Y Dechreuad

Wrth i'r Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwaith Ymwelwyr Iechyd ddod i ben blwyddyn derfynol ei oes o ddwy flwydd ar hugain, roedd yn werth mynd yn ôl at y gwerthoedd craidd i sicrhau y gellid eu dwyn ymlaen ar gyfer y dyfodol. Pan grëwyd y Bwrdd nid oedd corff Cymreig dros nyrsys, bydwreagedd nag ymwelwyr iechyd wedi bodoli o'r blaen. Cyrff dros y DG neu rai oedd yn gyfrifol am Gymru a Lloegr oedd ei ragflaenwyr i gyd. Megis dechrau symud ymlaen o drin Cymru fel y pymthegfed rhanbarth o Loegr, tuag at feddwl yn nhermau pedair ar ddeg o ranbarthau yn Lloegr ynghyd â'r Dywysogaeth, oedd llawer o'r rheiny oedd yn gweithio ym maes rheoleiddio proffesiynol ar y pryd. Ymgwymerodd y Bwrdd â'i gyfrifoldebau cyfreithiol ar Orffennaf 1 1983. Fe'i wasanaethwyd yn dda gan ei gorff cysgodol yn ogystal â'i ragflaenwyr ac yr oedd y trosglwyddiad yn llyfn.

Y Sefyllfa Gyfredol

Yr ydym bellach yn byw mewn byd gwahanol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i hen sefydlu ac wedi dod â dimensiwn wleidyddol a oedd ar goll yn flaenorol yn y broses o wneud penderfyniadau am y GIG yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu hunaniaeth ar wahân, gyda theitl newydd a lansiwyd yn ddiweddar. Mae cynnydd aruthrol wedi digwydd yn y sector iechyd annibynnol. Mae cydweithrediad agosach o lawer rhwng y gwahanol broffesiynau, rhwng y rheiny sydd yn gweithio gyda'i gilydd o fewn y gwasanaeth iechyd a rhwng y rhai sydd yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae newidiadau enfawr wedi bod ym maes iechyd. Mae agweddau cleifion wedi symud ymlaen ymhellach o fod yn obeithiol ddiolchgar i fod yn bartneriaid deallus. Mae gan lawer ddisgwyliadau o wasanaethau clinigol arbenigol iawn sydd ar gael yn ddiymdroi pan fyddant yn gofyn amdanynt. Bu cynnydd, sydd i'w groesawu, yng nghynrychiolaeth defnyddwyr, sydd yn caniatu i'r rhai sydd yn cynllunio ac yn rhoi gofal i gael dealltwriaeth ehangach o'r hyn y mae cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr ei eisiau. Ar yr un pryd, mae cyfraddau'r newidiadau technolegol o fewn iechyd wedi golygu y gellir targedu ymyriadau yn fwy effeithiol. Mae t f wedi bod yn narpariaeth gofal sylfaenol, sydd yn rhannol wedi adlewyrchu newidiadau demograffig.

Cyflawniadau

Ymunodd addysg nyrsio a bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd â'r sector Addysg Uwch. Mae lefel academiaidd hyfforddiant wedi cael ei godi heb unrhyw ostyngiad yn yr amser a dreulir ar elfennau ymarfer y rhaglenni. Mae elfen ymarfer addysg broffesiynol bellach yn cael ei arwain gan addysg, gyda myfyrwyr yn ychwanegol at y gweithlu; tra gynt roedd ymrwymiad cryf iawn o fewn hyfforddiant at gyflwyno gwasanaeth, a gallai hynny wrthdaro ag anghenion addysgiadol y myfyriwr unigol. Mae'r oruchafiaeth hon o fanteision tymor byr dros fanteision tymor hir wedi cael ei wrthdroi er lles datblygiad ymarferwyr unigol y dyfodol a'r cyfraniad y bydd eu dealltwriaeth ehangach yn ei wneud i gyflwyniad gofal iechyd. Mae gofyn cynyddol wedi bod am ofal ar sail tystiolaeth, i sicrhau y rhoddir pob gofal ar sail ymchwil cyfredol a pherthnasol. Adlewyrchir hyn o fewn addysg broffesiynol ar gyfer y rhai sydd yn dod i'r proffesiynau o'r newydd ac i'r rhai â chymwysterau'n barod sydd yn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ar lefel uwch neu ddyfnach.

Ethos

Trwy gydol ei oes, gwerthfawrogodd Fwrdd Cenedlaethol Cymru gydweithrediad. Sicrhaodd y Bwrdd bod anghenion gweithlu'r cyflogwyr iechyd yn cael eu deall a'i cefnogi gan addysg broffesiynol wedi'i chynllunio'n briodol. Trwy weithio gyda'r addysgwyr oedd yn darparu cyrsiau, ymdrechodd y Bwrdd i gydnabod ac amlygu ymarfer da tra'n sicrhau bod safonau'r DG a'r GE yn cael eu cyflawni mewn ffyrdd a oedd yn ddefnyddiol i anghenion arbennig Cymru. Bwriad rheoleiddio proffesiynol yw gwarchod y cyhoedd. Mae cynnal ansawdd addysg broffesiynol yn elfen sylfaenol o reoleiddio nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yng Nghymru fel yn unrhyw le arall. Mae'n rhaid i'r system sicrhau fod y rhai sydd yn cael mynediad i'r proffesiynau a'r rhai sydd yn ennill cymwysterau arbenigol wedi cyrraedd safonau ymarfer penodol. Wrth weithio mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, defnyddwyr gwasanaethau iechyd, y cyflogwyr, y darparwyr addysg a'r proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio, roedd y Bwrdd yn cydnabod gwerth ei rwydweithiau. Sicrhaodd y perthnasau hyn fod y Bwrdd yn gweithredu gyda dealltwriaeth lawn o anghenion a darpariaeth berthnasol yn ogystal â chymryd rhan o'r dechrau mewn cynlluniau a datblygiadau at y dyfodol. Mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd nid yn unig fod yn gymwys i ymarfer ar ôl ennill eu cymwysterau, ond hefyd fod wedi'u haddysgu i ddatblygu mewn byd sy'n newid yn barhaus. Cydweithiodd Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd gyda'i bartneriaid i gyd i sicrhau y gellid diwallu anghenion pobl Cymru gan ymarferwyr a oedd wedi'u paratoi'n briodol: ymarferwyr a werthfawrogai ysgoloriaeth ynghyd ag ymarfer ar sail tystiolaeth, a werthfawrogai waith t~~x~~m a chyfrifoldeb clinigol ac a oedd, yn anad dim, yn gosod cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr wrth galon darpariaeth gofal iechyd yng Nghymru.

Wynebu'r Dyfodol

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn olaf hon, bu'r Bwrdd yn gweithio er mwyn hwyluso trosglwyddo'r swyddogaethau, adnoddau a chyfrifoldebau perthnasol yn llyfn i'w olynyddion, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, corff rheoleiddio newydd y DG, ac i Broffesiynau Iechyd Cymru, corff Cymru yn y dyfodol.

CYFEIRIADAU

Cyngor Gofal Cymru/Care Council for Wales (2002) *Consultation on Codes of Practice for Social Care Workers and Employers of Social Care Workers*. CGC/CCWales, Caerdydd.

Adran Iechyd (2001) *Establishing the new Health Professions Council*. DH, Llundain.

Deddf Iechyd (1999) Y Llyfrfa, Llundain.

Y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (2000) *Revitalising Health and Safety*. Adran Yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Llundain.

J M Consulting Ltd (1999) *The Regulation of Nurses, Midwives and Health Visitors: Report on a review of the Nurses, Midwives and Health Visitors Act 1997*. J M Consulting Ltd, Bryste.

Prif Arolygwyr Bydwagedd yng Nghymru (2000) *Canllawiau Cymru-gyfan ar Arolygiaeth Statudol Bydwagedd*. Prif Arolygwyr Bydwagedd yng Nghymru, Caerfyrddin, Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) “*Gwireddu'r Potensial*” *Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn y 21ain ganrif*. CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) “*Creu'r Potensial*” *Cynllun Addysg*. Papur briffio 1 — canlyniad “*Gwireddu'r Potensial*” *Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn y 21ain ganrif*. CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001a) *Datganiad Strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar baratoi "Cynllun i Gymru 2001"*. Uned Bolisi, CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001b) *Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG gyda'i Bartneriaid: Fframwaith Weithredol*. CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001c) “*Gwireddu'r Potensial*” *Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn y 21ain ganrif*. Dogfen Ymgynghori. CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001d) *Gwella Iechyd yng Nghymru - Dyfodol Gofal Sylfaenol*. Dogfen ymgynghori. CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001e) *Talu am Ofal Nyrsio mewn Cartrefi Nyrsio*. Papur ymgynghori. CCC Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001f) *Ymestyn Hawliau: Cefnogi Pobl Ifanc yng Nghymru*. Adroddiad gan yr Uned Polisi, CCC, Caerdydd.

Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd (1979) HMSO, Llundain.

Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd (1997) HMSO, Llundain

Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (1995) HMSO, Llundain

Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) (1998) Y Llyfrfa, Llundain.

Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) SI 2002, Rhif 253, Y Llyfrfa, Llundain

Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth) (1981) HMSO, Llundain.

Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (1999) *Cymwys i Ymarfer: Comisiwn UKCC ar Addysg Nyrsio a Bydwreigiaeth*. Cadeirydd: Syr Leonard Peach, UKCC, Llundain.

Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (2000) *Safonau ar gyfer paratoi athrawon nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd*. UKCC, Llundain.

Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol (2001a) *Cymwys i ymarfer a phwrpas*. Adroddiad Grŵp Datblygu Ôl-Gomisiwn UKCC. UKCC, Llundain

Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol (2001b) *Y Gofynion ar gyfer rhaglenni yn arwain at gofrestrriad fel ymwelydd iechyd*. Dogfen Ymgynghorol. UKCC, Llundain.

Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (1998) *Cynllun Iaith Gymraeg WNB*. WNB, Caerdydd.

Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (2002) *Llawlyfr WNB ar gyfer Darparwyr Addysg a Rhaglenni Cymeradwyedig ar gyfer Nyrsys, Bydwreigedd ac Ymwelwyr Iechyd*. 5ed argraffiad, WNB, Caerdydd.

Y Swyddfa Gymreig (1999) *Adolygiad o'r Ddeddf Nyrsys, Bydwreigedd ac Ymwelwyr Iechyd - Ymateb y Llywodraeth i'r Argymhellion*. WHC(99)19, Y Swyddfa Gymreig, Caerdydd.

CYFRIF Y BWRDD CENEDLAETHOL CYMRU DROS NYRSIO, BYDWREIGIAETH A GWASANAETHAU YMWELWYR IECHYD AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002

Rhagair

Cyfrif am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 a gyflwynwyd yn unol ag Adran 18 Deddf 1997.

1. Cefndir Statudol

Dyma ddatganiad cyfrif terfynol Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Iechyd, am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002. Darparwyd y Cyfrif yn ôl cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn unol ag Adran 18(1)b Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997. Mae copiau o Gyfarwyddyd Cyfrifon y Bwrdd ar gael gan Reolwr Ariannol y Bwrdd (Ffôn: 029 2026 1400).

Un o bedwar Bwrdd Cenedlaethol a sefydlwyd gan Adran 5 Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997 yw'r Bwrdd. Sefydlodd Adran 1 y Ddeddf Gyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (UKCC), a greodd fframwaith pump corff ar gyfer rheoleiddio nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn y DG, ynghyd â'r Byrddau Cenedlaethol. Cymrodd UKCC a'r Byrddau Cenedlaethol le tua deg o sefydliadau statudol ac an-statudol blaenorol a feddai gynt ar gyfrifoldebau tebyg ar y cyd.

Roedd swyddogaethau UKCC yn cynnwys sefydlu Cofrestr o ymarferwyr cymwys, a gosod safonau ar gyfer addysg ac ymarfer. Roedd y Byrddau Cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau y cyrhaeddwyd a chynhaliwyd y safonau hyn, ac am archwilio cyhuddiadau o gamymddwyn proffesiynol, ymhlith pethau eraill. Ymgymrodd y Byrddau a UKCC â'u cyfrifoldebau o 1 Mehefin 1983.

O ganlyniad i Ddeddf 1992, a weithredwyd o 1 Ebrill 1993, trosglwyddwyd pob swyddogaeth ymddygiad proffesiynol i UKCC, gyda mwyafrif eu haelodau yn cael eu hethol gan y proffesiynau, tra bo'r Byrddau a etholwyd yn flaenorol wedi troi'n gyrff gydag aelodaeth a benodwyd gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol. Diwygiwyd Ddeddf 1979 gan Ddeddf 1992, ac fe gadarnhawyd y ddwy gan Ddeddf 1997.

2. Swyddogaethau a gweithgareddau Bwrdd Cenedlaethol Cymru

Swyddogaethau'r Bwrdd oedd:

- (a) Cymeradwyo sefydliadau mewn perthynas â darparu:
 - (i) Cyrsiau hyfforddi i alluogi pobl i gymhwyso ar gyfer cofrestru fel nyrsys, bydwagedd neu ymwelwyr iechyd, neu i gofnodi cymwysterau ychwanegol yn y Gofrestr, a;
 - (ii) Chyrsiau hyfforddi pellach ar gyfer y rhai sydd wedi'u cofrestru'n barod.

SECTION 3

- (b) Sicrhau bod cyrsiau o'r fath yn cyflawni gofynion UKCC, o ran eu math, cynnwys a safon.
- (c) Cynnal neu drefnu i eraill gynnal y fath arholiadau sydd eu hangen er mwyn galluogi pobl i gyflawni'r gofynion ar gyfer cofrestru, neu i ennill cymwysterau ychwanegol.
- (d) Cydweithio gyda UKCC i hybu dulliau hyfforddi gwell, a chyflawni unrhyw swyddogaethau eraill yn ymwneud â nyrsys, bydwragedd neu ymwelwyr iechyd yn ôl penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy orchymyn.
- (e) Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r awdurdodau perthnasol yngl n ag arolygu ymarfer bydwreigiaeth yn lleol.
- (f) Darparu, neu drefnu i eraill ddarparu, cyrsiau addysg ar gyfer pobl sydd yn bwriadu mynd yn athrawon nyrsys, bydwragedd neu ymwelwyr iechyd, a chyrsiau addysg bellach ar gyfer pobl gymwys o'r fath.
- (g) Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am yrfaeodd ym mhroffesiynau nyrsio, bydwreigiaeth a gwaith ymwelwyr iechyd yng Nghymru.

Cyflawnodd y Byrddau Cenedlaethol eu swyddogaethau yn ddarostyngedig i, ac yn unol ag unrhyw un o reolau perthnasol y UKCC, gan ystyried unrhyw wahaniaethau oedd yn berthnasol i'r gwahanol broffesiynau.

Mae adolygiad llawn o'r amcanion a'r gweithgareddau yn yr Adroddiad Blynyddol.

3. Canlyniadau

Ariannwyd y Bwrdd yn bennaf drwy gymorth grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Defnyddiwyd y gwariant ar ddau brif weithgaredd, hyfforddi athrawon nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, a swyddogaethau eraill y Bwrdd.

Cynhyrchodd y Bwrdd ddiffyg o **£12,000** (diffyg 2001 £25,000) ar ei weithgareddau cyffredin am y flwyddyn, roedd hyn ar ôl cynnwys Cost Cyfalaf Dybiannol o **£4,000** (2001 £6,000). Ar ôl addasu'r diffyg gyda'r gwarged cadadwy o flynyddoedd blaenorol, **£12,000** (2001 £23,000) oedd y gwarged cadadwy a ddygwyd ymlaen. Cyfanswm arian y Llywodraeth a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y Bwrdd ar 31 Mawrth 2002 oedd **£58,000** (2001 £84,000). Trosglwyddwyd yr asedau a'r rhwymedigaethau i Broffesiynau Iechyd Cymru, uned o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dilyn diddymiad y Bwrdd ar 31 Mawrth 2002.

Canlyniadau y targedau perfformiad a osodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer canran Grant y Llywodraeth a ddygwyd ymlaen gan y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn oedd:

	2002	2001
Targed	2.00%	2.00%
Gwirioneddol	1.70%	2.00%

SECTION 3

4. Aelodau'r Bwrdd

Roedd gan Fwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ddeg aelod. Penodwyd saith o'r rhain gan Weinidog Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a phenodwyd y Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Roedd Deddf 1997 yn nodi y dylai'r Cadeirydd a mwyafrif yr aelodau fod yn nyrsys, bydwragedd neu'n ymwelwyr iechyd cofrestredig. Ymdrinnir â chydabyddiaeth aelodau yn nodyn 5 i'r Cyfrif hwn.

Gosodir rhestr o aelodau dan nodyn 15 i'r Cyfrif hwn.

5. Trafodion Partïon Perthynol

Corff cyhoeddus dan nawdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd wedi cael nifer o drafodion sylweddol â'r Cynulliad yn ystod cwrs ei fusnes arferol. Yn ogystal, cafodd y Bwrdd amryw o drafodion sylweddol gyda chyrrff eraill, wedi'u hariannu un ai'n llwyr neu'n rhannol gan y Llywodraeth ganolog. Rhoddir rhestr o'r cyrrff hyn yn nodyn 14 o'r Cyfrif hwn.

Cadwodd y Bwrdd gofrestr o fuddiannau aelodau. Yn ystod y flwyddyn nid oedd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd, personél y Bwrdd, na phobl berthynol eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol gyda'r Bwrdd. Rhestrir aelodau'r Bwrdd a oedd hefyd yn aelodau neu'n staff uwch cyrrff eraill, wedi'u hariannu un ai'n llwyr neu'n rhannol gan y Llywodraeth Ganolog, yn nodyn 15 i'r Cyfrif hwn.

6. Cofrestrï Colledion a Rhoddion

Cadwodd y Bwrdd gofrestrï ar gyfer colledion a rhoddion. Ni ystyrir unrhyw un o'r eitemau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn sylweddol ar gyfer eu datgan yn y Cyfrif hwn.

7. Gweithwyr y Bwrdd

Rhoddir manylion am nifer a chategori gweithwyr yn nodyn 5 i'r Cyfrif hwn. Cydymffurfiodd y Bwrdd â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

8. Archwiliad

Penodwyd Prif Archwilydd Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i archwilio cyfrif y Bwrdd. Dangosir adroddiad a thystysgrif yr archwiliad ar dudalennau 39 a 40 y Cyfrif hwn. Messrs Grant Thornton o Gaerdydd oedd archwilwyr mewnol y Bwrdd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002.

9. Talu Dyledwyr

Cydymffurfiodd y Bwrdd â Deddf Taliadau Hwyr (Llôg) Dyledion Masnachol 1998; rhestrir ystadegau ar berfformiad talu'r Bwrdd ar dudalen 23.

10. Datblygiadau'r Dyfodol

Cymeradwywyd y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddau Dŷ'r Senedd ar 12 Chwefror 2002. Sefydlodd y Gorchymyn hwn Gyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gymryd lle Cyngor Canolog y Deyrnas Gyfunol dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, a'r pedwar Bwrdd Cenedlaethol yn cynnwys Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ar 1 Ebrill 2002.

Sefydlwyd Proffesiynau Iechyd Cymru ar 1 Ebrill 2002 er mwyn parhau â rhywfaint o waith Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a gweithgareddau ychwanegol i gefnogi Proffesiynau Cysylltiedig â Iechyd a Gwyddonwyr Clinigol/Gofal Iechyd yng Nghymru. Bydd yn uned o fewn y Cynulliad Cenedlaethol nes pasio deddfwriaeth gynradd i ganiatáu iddo gael ei sefydlu fel Corff Cyhoeddus Noddedig gan y Cynulliad.

Rhoddir gwybodaeth bellach dan Adran 2, Is-adran 19 o'r Adroddiad Blynyddol.



Prif Weithredwr Dros Dro
Is-swyddog Cyfrifon
Proffesiynau Iechyd Cymru

15 Gorffennaf 2002

SECTION 3

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R PRIF WEITHREDWR MEWN PERTHYNAS Â CHYNYRCHU CYFRIF Y BWRDD

Dan adran 18(1)b Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997, disgwylir i Fwrdd Cenedlaethol Cymru ddarparu datganiad cyfrifon yn unol â'r ffurf a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Paratowyd y Cyfrif hwn ar sail croniadau ac mae disgwyl iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr y Bwrdd ar 31 Mawrth 2002, ac o'i incwm a gwariant a llif arian am y flwyddyn ariannol. Gan i'r Bwrdd gael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2002, cynhyrchwyd y cyfrif hwn gan Broffesiynau Iechyd Cymru, uned yn gweithredu ar wahân o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Wrth baratoi'r Cyfrif, creda Proffesiynau Iechyd Cymru ei fod wedi:

1. Cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion datgelu perthnasol.
2. Paratoi'r datganiadau ariannol, gan gymhwyso polisiau cyfrif priodol, yn cynnwys eu trin ar sail busnes gweithredol, mewn modd cyson, ac wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail rhesymol.
3. Sicrhau fod y Cyfrif yn cyflawni gofynion cyfrif a datgelu y Ddeddf Cwmniau, ac wedi mabwysiadu'r safonau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrif. Credir nad oes unrhyw wyriad sylweddol o'r safonau hyn yn y datganiadau cyfrif hyn.

Mae Prif Swyddog Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi Prif Weithredwr Dros Dro Proffesiynau Iechyd Cymru fel Is-swyddog Cyfrifon.

Mae cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr yn cynnwys priodoldeb a chysondeb cyllid y Bwrdd, ac mae ef yn atebol am hynny hefyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a chadw cofnodion priodol, fel y nodwyd ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

SECTION 3

DATGANIAD Y PRIF WEITHREDWR AM REOLIAD MEWNOL Y SEFYDLIAD

Fel Prif Weithredwr Dros Dro ac Is-swyddog Cyfrifon Proffesiynau Iechyd Cymru, gynt yn Brif Swyddog Gweithredol a Chyfrifon Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd (WNB), roedd gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system reoli fewnol gadarn a oedd yn cefnogi cyflawniad polisïau, nod ac amcanion y Bwrdd, tra'n gwarchod arian y cyhoedd a'r asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yng Natganiad Cyfrifon y Llywodraeth a Datganiad Rheoli'r WNB.

Dyluniwyd y system reolaeth fewnol i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nod ac amcanion; felly ni all roi mwy na sicrhad rhesymol o effeithiolrwydd, ac nid sicrhad llwyr.

Seiliwyd y system reoli fewnol ar broses barhaus a ddyluniwyd i adnabod y prif risgiau i gyflawniad polisïau, nod ac amcanion y sefydliad, i werthuso natur a maint y risgiau hyn ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Nid oedd y system hon wedi bod yn ei lle'n llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002. Rwyf yn disgwyl y bydd gan Gorff Olynol y Bwrdd, Proffesiynau Iechyd Cymru, weithdrefnau cyffelyb yn eu lle erbyn mis Mawrth 2002 yn unol â chanllawiau'r Trysorlys. Cymer hyn i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i'r trefniadau sydd angen eu sefydlu i gwmpo i'w lle a gwella eu praffter.


Fel Swyddog Cyfrifon, roedd gennyf hefyd gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol. Roedd WNB wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

- Bwrdd a oedd yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol WNB (mae'r Bwrdd yn cynnwys tri uwch-reolwr, yn gynnwys y Prif Weithredwr, a saith aelod allanol annibynnol yn gynnwys Cadeirydd y Bwrdd);
- Archebion Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol a oedd yn gosod allan gyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion y Bwrdd dros faterion ariannol;
- cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd gyda'r Cynulliad ac Adolygiad Atebolrwydd Blynyddol gydag Adran Noddi'r WNB;
- arferion mewnol o ymdrin â chyngor gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r Cynulliad yn cynnwys yr hyn a gynhwysir yn llythyrau'r CEO a DAO.
- cyflwynwyd adroddiadau achlysurol i'r Bwrdd yn ymwneud â rheolaeth fewnol;
- parhaodd y WNB i roi gwaith ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gytundeb i Grant Thornton. Maent yn cynhyrchu adroddiadau archwilio mewnol cyson, yn unol â safonau a ddiffinwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, gan gynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system reoli fewnol WNB ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliant.
- systemau cyllideb cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol wedi'i chymeradwyo a'i hadolygu gan y Bwrdd;
- adolygiadau bob chwarter gan y Bwrdd o adroddiadau ariannol, a oedd yn dangos perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb er mwyn adnabod risgiau;

SECTION 3

- adroddiadau i'r Bwrdd ac uwch-reolwyr yn ymwneud â'r broses o gau a ganolbwyntiai'n neilltuol ar y risg i barhâd busnes;
- adroddiadau a chyfarfodydd achlysurol gyda Rheolwyr Strategaeth Risg y Cynulliad Cenedlaethol i'w hysbysu am gynnydd yn ymwneud â'r broses gau.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol;
- Cynnal ymwybyddiaeth o risg drwy'r sefydliad cyfan

Cyfrannwyd at fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reoli fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch-reolwyr o fewn WNB sydd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith reoli fewnol, a sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.



David A Ravey
Prif Weithredwr Dros Dro
Is-swyddog Cyfrifon
Proffesiynau Iechyd Cymru

15 Gorffennaf 2002

SECTION 3

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD PRIF ARCHWILYDD CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Tystiaf i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 41 i 56 dan Adran 18(4) Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997. Paratowyd y datganiadau hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a'r polisïau cyfrif a nodir ar dudalennau 45 a 46.

Cyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 36 mae'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997 a chyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a roddir yn unol â'r Ddeddf, ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, yn statudol ac fe'u cyfarwyddir gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio a chyfarwyddyd ethegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Nyrsys, Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997 ac â'r cyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl y Ddeddf, ac os yw'r gwariant a'r incwm ym mhob agwedd sylweddol wedi'u defnyddio ar gyfer y dibenion a fwriadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os, yn fy marn i, nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Bwrdd wedi cadw cofnodion cyfrifon priodol, neu os na dderbyniais yr holl wybodaeth ac eglurhad angenrheidiol ar gyfer fy ymchwiliad.

Darllenaf yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf yr oblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol yn y datganiadau ariannol.

Rwyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 37 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Bwrdd â chanllaw'r Trysorlys 'Llywodraeth Corfforaethau: Datganiad ar Reolaeth Fewnol'. Adroddaf os nad yw'n cyflawni'r gofynion datgelu a nodwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â'r wybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail barn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys, ar sail prawf, archwilio tystiolaeth sydd yn berthnasol i'r cyfansymiau, datgeliadau a thrafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau arwyddocaol a wnaed gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac os yw'r polisïau cyfrif yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r Bwrdd, wedi'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliiais fy archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth i mi fedru rhoi sicrhad rhesymol nad oes cam-ddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, p'run ai yw'r rheiny wedi'u hachosi trwy gamgymeriad, trwy dwyll neu unrhyw anghysondeb arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob modd sylweddol, wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn yr wyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

SECTION 3

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD PRIF ARCHWILYDD CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (Parhad)

Busnes Gweithredol

Fel y trafodwyd yn Nodyn 1 i'r cyfrifon, trosglwyddwyd eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a diddymwyd y Bwrdd ar 31 Mawrth 2002. Gan fod gweithgareddau'r Bwrdd yn parhau, fel rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd Datganiadau Ariannol y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 wedi'u paratoi'n barod, ac rwyf wedi'u harchwilio ar sail busnes gweithredol. Nid yw fy marn felly yn amodol yn yr ystyr hwn.

Barn

Yn fy marn i:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ar 31 Mawrth 2002 ac o'r diffyg, enillion a cholledion cydnabyddedig cyflawn a llif arian am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny ac maent wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd 1997 a chyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- Ym mhob ystyr sylweddol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm ar y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.



John Bourn
Prif Archwilydd Cymru
18 Gorffennaf 2002

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD CF99 1NA

CYFRIF INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002

	Nodyn	£000	Y flwyddyn flaenorol
			£000
Incwm – gwaith parhaus			
Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	3(i)	1,025	1,041
Ryddhawyd o Grant Wrth Gefn y Llywodraeth	2	30	29
		<u>1,055</u>	<u>1,070</u>
Gwariant – gwaith parhaus			
Costau Hyfforddi Athrawon	4(i)	78	76
Costau'r Pencadlys	4(ii)	955	988
Dibrisiant	6	30	25
Costau Tybiannol Tâl Cyfalaf	11	4	6
		<u>1,067</u>	<u>1,095</u>
		(12)	(25)
Diffyg ar weithgareddau cyffredin			
Ffioedd ac incwm anghadadwy sy'n dderbyniadwy	3(ii)	49	57
Ffioedd ac incwm arall ad-daladwy i'r Cynulliad	3(iv)	(52)	(58)
Diffyg ar waredu asedau cyffyrddadwy sefydlog		-	-
		<u>(15)</u>	<u>(26)</u>
Diffyg a gadwyd am y flwyddyn			
Gwarged a gadwyd a ddygwyd ymlaen		23	47
Addasiad ar gyfer Cost Dybiannol Tâl Cyfalaf	11	4	6
Trosglwyddwyd i'r Cyfrif Adbriso Wrth Gefn	10	-	(4)
		<u>12</u>	<u>23</u>

Diddymwyd y Bwrdd ar 31 Mawrth 2002 ond mae pob gweithgaredd wedi'i ddsbarthu fel parhaus (gweler nodyn 1(i))

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn llunio rhan o'r adroddiad hwn

ADRAN 3

DATGANIAD O'R ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG CYFAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002

	Nodyn	£000	Y flwyddyn flaenorol £000
Diffyg a gadwyd am y flwyddyn		(15)	(26)
Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill am y flwyddyn:			
Addasiad am Daliadau Tybiannol (Costau Cyfalaf)	11	4	6
Symudiad ar Grant Wrth Gefn y Llywodraeth	2	(6)	(10)
Gostyngiad yng ngwerth asedau cyffyrddadwy sefydlog	10	(9)	(1)
Cyfanswm colledion cydnabyddedig am y flwyddyn		(26)	(31)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn llunio rhan o'r adroddiad hwn


ADRAN 3

TAFLEN ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2002

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2001			
		£000	£000	£000	£000
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffyrddadwy Sefydlog	6		46		61
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	7	32		37	
Arian yn y banc ac mewn llaw	9	18		22	
		50		59	
Credydwyr					
Symiau yn ddyledus o fewn un flwyddyn	8	(38)		(36)	
Asedau Cyfredol Net			12		23
Cyfanswm Asedau llai			58		84
Rhwymedigaethau Cyfredol			58		84
Cyllidwyd gan:					
Cronfeydd y Llywodraeth					
Cyfalaf ac Arian wrth Gefn					
Grant wrth Gefn y Llywodraeth	2	46		52	
Cyfrif Incwm a Gwariant		12		23	
Cronfa Adbrisio wrth Gefn	10	-	58	9	84
			58		84
			58		84

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn llunio rhan o'r adroddiad hwn.

David A Ravey
Prif Weithredwr Dros Dro
Is-swyddog Cyfrifon
Proffesiynau Iechyd Cymru



Dyddiedig: 15 Gorffennaf 2002

ADRAN 3

DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002

	Nodyn	Y flwyddyn flaenorol			
		£000	£000	£000	£000
Arian Net (All-lif) o weithgareddau gweithredu			(3)		(21)
Derbynebau anghadadwy (ag eithrio llog)		51		56	
Adenillion ar fuddsoddiad a Gwasanaethu Cyllid					
Llog ar Gyfrif Adnau	3(iii)	1	52	2	58
Derbynebau anghadadwy a dalwyd i'r Cynulliad	3(iv)		(53)		(57)
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol					
Asedau Cyffyrddadwy Sefydlog:	6	(24)		(19)	
taliadau i gaffael		-	(24)	-	(19)
derbynebau o werthiant			(28)		(39)
All-lif Arian Net cyn Cyllido					
Cyllido					
Grant y Llywodraeth ar gyfer Gwariant Cyfalaf	3(i)		24		19
	9		(4)		(20)
(Gostyngiad) mewn Gweddillion Ariannol			(3)		(21)

NODIADAU AR Y DATGANIAD LLIF ARIAN

Cysoniad y Diffyg ar Weithgareddau Cyffredin gydag Arian Net (All-lif) o Weithgareddau Gweithredu

(Diffyg) ar weithgareddau cyffredin am y flwyddyn		(12)	(25)
Addasu ar gyfer eitemau heb gynnwys symud cronfeydd:			
Costau Tybiannol Tal Cyfalaf	11	4	6
Dibrisiant	6	30	25
		22	6
Rhyddhad Grant Gohiriedig y Llywodraeth	2	(30)	(29)
Gostyngiad mewn Dyledwyr	7	2	1
Cynnydd mewn Credydwyr	8	3	1
Arian Net (All-lif) o Weithgareddau Gweithredu		(3)	(21)

Nodyn:

Mae'r symudiad mewn dyledwyr yn berthnasol i incwm heblaw ffioedd yn unig; mae'r addasiad credydwyr yn eithrio gweddill diwedd y flwyddyn oedd yn ddyledus i'r Cynulliad am yr incwm anghadadwy oedd yn dderbyniadwy.

NODIADAU I'R CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002

1. Polisau Cyfrif

1(i) Confensiynau Cadw Cyfrifon

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn ôl y confensiwn cost hanesyddol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn diwallu gofynion cyfrif a datgelu y Ddeddf Cwmniau 1985 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd neu fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifon, cyn belled ag y bo'r gofynion hynny'n briodol.

Diddymwyd y Bwrdd drwy orchymyn ar 31 Mawrth 2002 ond mae ei swyddogaethau yn awr yn cael eu gweithredu gan Broffesiynau Iechyd Cymru fel uned oddi mewn i'r Cynulliad Cenedlaethol nes pasio deddfwriaeth gynradd i ganiatáu sefydlu Proffesiynau Iechyd Cymru fel Corff Cyhoeddus Noddedig gan y Cynulliad.

O ganlyniad, mae'r cyfrifon blynyddol am 2001/2002 wedi cael eu paratoi ar sail cwmni gweithredol.

1(ii) Grant y Llywodraeth

Mae grant o'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar wahan i'r hyn a ddisbarthir i wariant cyfalaf sy'n cael ei gredydu i Gyfrif Cadw Grant y Llywodraeth; mae cyfran o weddill y gronfa wrth gefn hon yn cael ei ryddhau'n flynyddol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol.

1(iii) Ffioedd ac Incwm Arall

Mae incwm ffioedd ac incwm arall y Bwrdd yn cael ei dalu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar sail yr arian a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

1(iv) Costau Cyfalaf

Mae tal cyfalaf tybiannol, yn adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd, yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, ar raddfa o chwech y cant o gyfalaf ar gyfartaledd a ddefnyddir dros y flwyddyn.

1(v) Asedau Cyffyrddadwy Sefydlog

Mae eitemau cyfalaf sydd o werth unigol neu grwp o £500 neu fwy yn cael eu cyfalafu. Mae asedau yn cael eu hadbrisio yn flynyddol drwy ddefnyddio mynegeion priodol yn defnyddio y dull costau ailosod wedi'u dibrisio.

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2001 (Parhad)

1. Polisiâu Cyfrif (parhad)

1(vi) *Dibrisiant*

Mae dibrisiant yn cael ei ddarparu ar gyfraddau sydd wedi cyfrif i ddileu gwerth pob ased ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased sy'n weddill fel y nodir isod.

Addasiadau i Adeiladau

Mae'r rhain y cynnwys cyfalafu'r gwelliannau i adeiladau'r Bwrdd ac maent yn cael eu dileu dros y cyfnod sy'n weddill o les deng mlynedd y Bwrdd.

Offer Cyfrifiadurol - rhagwelir oes economaidd ddefnyddiol o bedair blynedd;

Cyfarpar a Pheiriannau - rhagwelir oes economaidd ddefnyddiol o bum mlynedd;

1(vii) *Treth*

Mae'r Bwrdd yn cael ei gydnabod gan Gyllid y Wlad fel corff gyda statws elusennol ac ni wneir darpariaeth ar gyfer treth. Nid yw'r Bwrdd wedi'i gofrestru am TAW ac mae pob gwariant, yn cynnwys ychwanegiadau i'r asedau sefydlog, yn cynnwys treth TAW na ellir ei adennill.

1(viii) *Deilliannau*

Nid oes gan y Bwrdd unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf am grantiau adrannol am ei anghenion ariannol ac felly nid yw'n agored i risg datodiad. Yn ogystal, nid oes ganddo unrhyw adneuon sylweddol, ac mae pob ased a rhwymedigaeth sylweddol yn cychwyn yn benodedig, felly nid yw'n agored i risg llog neu risg arian cyfred.

ADRAN 3

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

2. Cysoni'r symudiad yng Nghronfeydd y Llywodraeth

	Cyfrif Incwm a Gwariant £000	Cronfa Adbriso £000	Gronfa wrth gefn Grant y Llywodraeth £000	2001/02 Cyfanswm £000	2000/01 Cyfanswm £000
Cronfeydd y Llywodraeth ar 1 Ebrill	<u>23</u>	<u>9</u>	<u>52</u>	<u>84</u>	<u>115</u>
(Diffyg) a gadwyd am y flwyddyn	(15)	-	-	(15)	(26)
Addasiad ar gyfer Taliadau Tybiannol	4	-	-	4	6
Grant wedi'i gymhwyso i ychwanegiadau gwariant cyfalaf	-	-	24	24	19
Gostyngiad yng ngwerth Asedau Cyffyrddadwy Sefydlog	-	(9)	-	(9)	(1)
Rhyddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	<u>-</u>	<u>-</u>	<u>(30)</u>	<u>30</u>	<u>(29)</u>
Symudiad Net yn y Gwariant	(11)	(9)	(6)	(26)	(31)
Cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth	<u>12</u>	<u>-</u>	<u>46</u>	<u>58</u>	<u>84</u>

Mae'r golofn "Cronfa wrth Gefn Grant y Llywodraeth" yn cynrychioli'r symudiad mewn gwerthoedd hanesyddol Asedau Cyffyrddadwy Sefydlog.

Dadansoddiad o "Rhyddhau i'r Cyfrif Incwm a Gwariant"	2001/02 £000	2000/01 £000
Dibrisiant a gyfrifwyd yn hanesyddol ar asedau cyffyrddadwy sefydlog am y flwyddyn	30	29
Gwerth llyfr hanesyddol o asedau cyffyrddadwy sefydlog a waredwyd yn ystod y flwyddyn	-	-
	<u>30</u>	<u>29</u>

NODIADAU AM Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

3. Incwm

3(i) Grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru	£000	Y flwyddyn flaenorol £000
Hyfforddiant Athrawon	75	50
Gwaith Pencadlys	974	1,010
	1,049	1,060
Swm a gymhwyswyd i Wariant Cyfalaf	(24)	(19)
	1,025	1,041
Swm a gredydwyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	1,025	1,041

Swyddogaethau a briodolir i'r Bwrdd yn ôl Adran 6(1)e Deddf 1997

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddarparu hyfforddiant i athrawon a'r rhai sy'n bwriadu mynd yn athrawon nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr ieched, ac hefyd i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am yrfaedd mewn nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr ieched yng Nghymru. (SI 1993/614). Mae cyllid am y swyddogaethau hyn yn cael ei awdurdodi gan Ddeddf Llywodraeth Cymru ac adran 1 Deddf Y Gwasanaeth Ieched Gwladol.

3(ii) Ffioedd ac Incwm arall anghadadwy	£000	£000
Ffioedd		
Cyrsiau Prosiect	33	29
Ffioedd Cyfansawdd	7	16
Ffioedd Mynegiio Eraill:		
Trosi nyrsys i lefel 1	6	9
Cyrsiau Fframwaith WNB	1	1
Cyrsiau Eraill	1	-
Ffioedd Arholiadau	1	-
	48	55
Incwm arall		
Llog ar gyfrif adnau	1	2
	49	57
Cyfanswm incwm ffioedd ac incwm anghadadwy arall	49	57
 3(iii) Cysoni incwm anghadadwy sy'n dderbyniadwy gyda'r arian a dderbyniwyd yn y flwyddyn		
Incwm ffioedd ac arall sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn	49	57
Addasu ar gyfer dyledwyr ar y dechrau a'r diwedd	3	1
	52	58
Arian a dderbyniwyd yn y flwyddyn o incwm anghadadwy	52	58

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

3(iv) Cysoni arian a dderbyniwyd o incwm anghadadwy, gyda'r symiau a ad-dalwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	£000	Y flwyddyn flaenorol £000
Gweddill a ddygwyd ymlaen	1	-
Arian a dderbyniwyd	<u>52</u>	<u>58</u>
Cyfanswm yr incwm ad-daladwy	53	58
Ad-daliad arian	<u>(53)</u>	<u>(57)</u>
Yn ddyledus i'r Cynulliad ar ddiwedd y flwyddyn	<u>-</u>	<u>1</u>

Mae'r Bwrdd yn rhwym i dalu i'r Cynulliad ei amcangyfrif o incwm ffioedd ac incwm arall, neu'r gwerth gwirioneddol a dderbyniwyd, p'run bynnag yw'r mwyaf (ag eithrio derbyniadau o waredu asedau cyffyrddadwy sefydlog). Mae'r swm sy'n ddyledus i'r Cynullad ar ddiwedd y flwyddyn a ddangosir uchod yn cael ei gynnwys o dan y credydwy'r — nodyn 8.

ADRAN 3

NODIADU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

4. Gwariant

	Nodyn	£000	£000	Y flwyddyn flaenorol	
				£000	£000
4(i) Costau Hyfforddi Athrawon					
Cyflogau, Ffioedd a Chostau, Gweithdai a Chyrsiau Diweddarau i staff presennol			<u>78</u>		<u>76</u>
4(ii) Costau Pencadlys					
Aelodau'r Bwrdd					
Costau Cyflogaeth		10		10	
Costau Teithio a Chynhالياeth		<u>6</u>	16	<u>4</u>	14
Aelodau Gweithredol a Staff					
Costau Cyflogaeth		665		652	
Costau Teithio a Chynhالياeth		18		22	
Costau Eraill		<u>31</u>	714	<u>25</u>	699
Adeiladau					
Costau Les		64		65	
Costau Adeilad Eraill		<u>34</u>	98	<u>62</u>	127
Gweinyddu		58		72	
Gwasanaeth Gwybodaeth Gyrfaoedd		9		23	
Arholiadau, Cofnodion, Mynegeio ayyb.		4		10	
Ffioedd Archwiliadau Allanol		8		6	
Cydnabyddiaeth yr Archwiliwr Allanol am waith archwilio arall		1		1	
Costau Ymgynghorol		23		24	
Cynnydd Pensiynau i Bensiynwyr y Bwrdd		4		4	
Cyfraniad i gostau pensiwn y Cyrff Nyrsio a Bydwreigiaeth a ddiddymwyd gan Ddeddf 1979		7		6	
Costau Rheoli Newid		12		-	
Costau Amrywiol		<u>1</u>	<u>127</u>	<u>2</u>	<u>148</u>
			<u>955</u>		<u>988</u>

ADRAN 3

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

5(i) Aelodau a Gweithwyr y Bwrdd	Y flwyddyn flaenorol	
	£000	£000
Dadansoddiad Cyflog Aelodau Gweithredol a Staff		
Cyflogau	473	492
Yswiriant Gwladol Cyflogwr	37	40
Costau Pensiwn Cyflogwr	78	66
	588	598
Staff Asiantaethau	76	53
Cynllun Iechyd Galwedigaethol, ayyb	1	1
	665	652

Ni dderbyniodd Aelodau Anweithredol unrhyw gydnabyddiaeth gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Prif gynllun pensiwn y Bwrdd yw FPS 1655 ac yn ystod y flwyddyn talodd aelodau gyfraniadau o 6% a chyflogwyr 20.3% am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin a 20.6% am y naw mis i 31 Mawrth 2002 o enillion pensiynadwy. Mae rhai o'r staff yn y cynllun GIG ble mae cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr yn 6% a 7% yn y drefn honno.

5(ii) Manylion cydnabyddiaeth i'r Aelodau a Staff				2001—2002			
Uwch sy'n gyfrifol am lunio polisi:				Oed	Band taliadau	Cynnydd gwir yn y Pensiwn yn 60	Pensiwn Cronedig yn 60 ar 31 Mar 02
				£000	£000	£000	
Cadeirydd	Sue Kent	59	5 - 10	-	-		
Prif Weithredwr	David A Ravey	59	55 - 60	0 - 2.5	10 - 15		
Cyfarwyddwr-Ansawdd a Safonau	Thomas J Moore	48	50 - 55	0 - 2.5	0 - 5		
Cyfarwyddwr Busnes	Gwasanaethau Wendy Fawcus	44	45 - 50	0 - 2.5	10 - 15		

Mae'r taliadau yn cynnwys cyflog yn unig, ar wahân i'r Cadeirydd, ble mae'r gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog (£9,000), a'r dreth ac yswiriant gwladol ar gostau teithio (£644).

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o brif cynllun pensiwn staff y Bwrdd, FPS 1655; mae ei gytundeb cyflogaeth yr un fath ag aelod cyffredin o'r staff, ar wahân i'w statws fel Swyddog Cyfrifon y Bwrdd.

Mae gwerthoedd pensiwn a osodir allan yn y tabl uchod yn cynnwys buddiannau a gafwyd yn y gyflogaeth hon yn unig.

Ni dderbyniodd unrhyw un o'r aelodau na'r staff uwch unrhyw gydnabyddiaethau na buddiannau gan y Bwrdd, ar wahân i'r hyn a ddangosir uchod. Nid yw'r Bwrdd yn gweithredu unrhyw gynllun i ddarparu ceir, na buddiannau gweithwyr eraill.

5(iii) Gweithwyr

Y cyfartaledd misol ar gyfer y staff cyflogedig yw:

Prif Weithredwr	1.00	1.00
Aelodau Gweithredol	2.00	2.00
Gweithwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth Proffesiynol	3.22	3.95
Gwybodaeth Gyrfaoedd	1.00	1.00
Arholi a Mynegeo	1.00	1.00
Cyllid	1.40	1.58
Gweinyddu a Personél	10.39	10.21
	20.01	20.74

ADRAN 3

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

Asesau Cyffyrddadwy Sefydlog

	Addasiadau Adeiladau £000	Cyfrifiaduron £000	Cyfarpar a Pheiriannau £000	Cyfanswm £000
Cost neu Werth				
Ar 1 Ebrill 2001	5	89	37	131
Adbriso (*)	-	26	12	38
Ychwanegiadau	-	22	2	24
Gwaredu	-	(13)	-	(13)
Ar 31 Mawrth 2002	<u>5</u>	<u>124</u>	<u>51</u>	<u>180</u>
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2001	2	42	26	70
Adbriso (*)	-	34	13	47
Tal am y flwyddyn	1	22	7	30
Gwaredu	-	(13)	-	(13)
Ar 31 Mawrth 2002	<u>3</u>	<u>85</u>	<u>46</u>	<u>134</u>
Prisiad Net				
Ar 31 Mawrth 2002	<u>2</u>	<u>39</u>	<u>5</u>	<u>46</u>
Ar 31 Mawrth 2001	<u>3</u>	<u>47</u>	<u>11</u>	<u>61</u>

* Mae diddymiad Bwrdd Cenedlaethol Cymru o 31 Mawrth 2002 wedi arwain at drosglwyddo pob ased i Broffesiynau Iechyd Cymru, uned o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar y dyddiad trosglwyddo, ym marn y Bwrdd, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y prisiad asesau sefydlog ar gost adnewyddu net ac ar gost hanesyddol ac mae'r gronfa wrth gefn adbriso wedi'i chau.

ADRAN 3

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

	Y flwyddyn flaenorol £000	£000
7. Dyledwyr		
Dyledwyr Masnachol (Incwm Ffioedd)	2	5
Taliadau o flaen llaw ac Incwm Cronnol	28	30
Dyledwyr Eraill	2	2
	32	37
	32	37
8. Credydwyr – Symiau yn ddyledus o fewn un flwyddyn		
Treth ac Yswiriant Gwladol	15	14
Credydwyr ac arian cronedig arall	23	21
	38	35
Swm yn ddyledus i'r Cynulliad am incwm anghadadwy	-	1
	38	36
	38	36
9. Dadansoddiad o newidiadau mewn Arian a Chyferwerth Arian		
Cronfeydd Net ar 1 Ebrill	22	42
(Gostyngiad) yn y balans ariannol dros y flwyddyn	(4)	(20)
	18	22
	18	22
10. Cronfa Adbriso wrth Gefn		
Yn weddill ar 1 Ebrill	9	6
Gostyngiad mewn gwerth dros y flwyddyn	(9)	(1)
Trosglwydd rhwng cronfeydd wrth gefn	-	4
	-	9
	-	9
11. Costau Cyfalaf		
Cyfrifwyd y gost dybiannol o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd gan ddefnyddio cyfradd llog o 6% o'r cyfartaledd cyfalaf a ddefnyddiwyd dros y flwyddyn.		
12. Ymrwymadau prydlesoedd gweithredol		
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd y Bwrdd yn ymrwymedig i wneud taliadau blynyddol yn y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesau gweithredol, fel a ganlyn:		
Tir ac Adeiladau		
Prydlesau sy'n dod i ben:		
Ar ôl pum mlynedd	64	64
	64	64

Bydd adolygiad rhent yn digwydd ym mis Mai 2002 ac felly bydd taliadau'r brydles rhent yn codi yn 2002-03.

NODIADAU AR Y CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002 (Parhad)

13. Ymrwymadau Pensiwn 13(i) Staff presennol a Phensiynwyr

Mae'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn ar y cyd (FPS 1655), ynghyd â Byrddau Cenedlaethol dros Lloegr, Yr Alban a UKCC. Gweinyddir y cynllun gan FPS Group Ltd., cwmni wedi'i gyfyngu drwy warant. Gall gweithwyr y Bwrdd ymuno â'r cynllun yn ddarostyngedig i rai amodau iechyd yn cael eu diwallu. Yr oed ymddeol arferol yw 60, er gall rhai aelodau ymddeol yn gynt ar daliadau llai.

Mae rhai gweithwyr eraill o'r Bwrdd, gydag amodau gwaith neilltuol ac a oeddynt yn eu swyddi cyn sefydliad FPS (1655), yn parhau yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae costau pensiwn i'r cyflogwr ar gyfer gweithwyr presennol y Bwrdd - £78,000 (2001 £66,000) yn cael eu dangos yn nodyn 5(i) y Cyfrifon hyn.

13(ii) Cynnydd mewn Pensiynau

Mae ymrwymiad i gynyddu pensiynau mewn taliadau yn berthnasol i holl bensiynwyr y Bwrdd. Ynghyd â'r Byrddau eraill ac UKCC, bydd codiadau i bensiynwyr FPS yn cael eu gwneud yn unol â Gorchmynion Adolygiad Cynnydd mewn Pensiwn, a gyhoeddwyd o dan y Deddfau Cynnydd mewn Pensiwn. Mae isafswm y cynnydd blynyddol yn unol â Mynegai Prisiau Adwerthu'r Llywodraeth, gydag uchafswm o 5%. Mae costau'r codiadau fel rheol yn cael eu talu yn y flwyddyn y gwneir y taliad. Y taliadau am gostau cynnydd mewn pensiwn yn y flwyddyn oedd:

	2001/02 £000	2000/01 £000
Pensiynwyr y Bwrdd ei hunan	4	4
Cyfran o gostau pensiynwyr sefydliadau blaenorol	7	6
	11	10

13(iii) FPS(1655) Cynllun Buddiannau Diffiniedig

